BRITISH COUNCIL
Cymru

CfBT
Education Trust




# Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru

## Canfyddiadau o arolwg Tueddiadau Ieithoedd 2014/15


Kathryn Board OBE

Teresa Tinsley


Providing education for public benefit worldwide

# Croeso i Ymddiriedolaeth Addysg CfBT

Mae Ymddiriedolaeth Addysg CfBT ar restr 30 elusen uchaf* y DU, yn darparu gwasanaethau addysg er budd y cyhoedd yn y DU ac yn rhyngwladol. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Addysg CfBT dros 40 mlynedd yn ôl, ac mae ganddi drosiant blynyddol gwerth dros £100 miliwn ac mae'n cyflogi dros 2,000 aelod o staff ledled y byd. Ein nod yw bod yn brif ddarparwr gwasanaethau addysg y byd, gyda diddordeb arbennig mewn effeithiolrwydd ysgolion.

Mae ein gwaith yn cynnwys gwella ysgolion drwy arolygiadau, datblygu gweithlu ysgolion a dylunio'r cwricwlwm. Rydym yn gweithio gydag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, ac yn cyflwyno Rhaglen Dysgu Byd-eang Cymru ar ran Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol y DU. Rydym yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i ddysgwyr yn ein hysgolion ac mewn sefydliadau troseddwyr ifainc.

Yn rhyngwladol rydym wedi gweithredu rhaglenni addysg yn llwyddiannus ar gyfer llywodraethau yn y Dwyrain Canol, Affrica Is-Sahara a De Ddwyrain Asia ac rydym yn gweithio ar brosiectau a ariennir gan roddwyr fel y Comisiwn Ewropeaidd, Adran Materion Tramor a Masnach Awstralia, Banc y Byd ac Asiantaeth dros Ddatblygu Rhyngwladol UDA, mewn gwledydd incwm isel a chanolig.

Ail-fuddsoddir yr arian dros ben y mae ein gweithrediadau'n ei gynhyrchu yn ein rhaglen ymchwil addysgol.

Ewch i www.cfbt.com i gael rhagor o wybodaeth.

**Mae CfBT yn y 27ain safle allan o 3,000 o elusennau yn y DU yn seiliedig ar incwm yn 'Top 3,000 Charities 2010/11' a gyhoeddwyd gan Caritas Data*

© Hawlfraint Ymddiriedolaeth Addysg CfBT 2015. Barn a safbwyntiau'r awduron a fynegir yn y cyhoeddiad hwn ac nid ydynt o anghenraid yn cynrychioli barn Ymddiriedolaeth Addysg CfBT.

# Gwybodaeth am y British Council

Y British Council yw corff rhyngwladol y DU ar gyfer perthnasoedd diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn creu cyfleoedd rhyngwladol i bobl y DU a gwledydd eraill ac yn meithrin ymddiriedaeth rhyngddynt ledled y byd.

Rydym yn gweithio mewn dros 100 gwlad ac mae ein 8,000 aelod o staff – gan gynnwys 2,000 o athrawon – yn gweithio gyda miloedd o weithwyr proffesiynol a gwneuthurwyr polisi a miliynau o bobl ifanc bob blwyddyn drwy addysgu Saesneg, rhannu'r celfyddydau a darparu rhaglenni addysg a chymdeithas.

Rydym yn gweithredu ers 80 mlynedd ac yn gweithio yng Nghymru ers 1944. Yn British Council Cymru rydym yn hyrwyddo pigion diwylliant a chryfderau addysgol Cymru yn rhyngwladol drwy ein rhaglenni ym meysydd addysg a'r celfyddydau. Rydym yn helpu myfyrwyr, athrawon, academyddion a'r gymuned gelfyddydol yng Nghymru i gysylltu â'r rhai sy'n cyfateb iddyn nhw ym mhedwar ban y byd.

Rydym yn elusen yn y DU wedi'i rheoli gan Siarter Frenhinol. Mae grant craidd a ariennir yn gyhoeddus yn darparu llai na 20 y cant o'n trosiant, a oedd yn £864 miliwn yn 2013/14. Daw gweddill ein harian o wasanaethau y mae cwsmeriaid ledled y byd yn talu amdanynt, drwy gytundebau addysg a datblygu ac o bartneriaethau â chyrff cyhoeddus a phreifat. Nod ein gwaith i gyd yw gwireddu ein diben elusennol ac mae'n cynnal ffyniant a diogelwch i'r DU ac yn fyd-eang.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.britishcouncil.org neu wales.britishcouncil.org

# Gwybodaeth am yr awduron



## Kathryn Board OBE

Roedd Kathryn Board yn Brif Weithredwr CILT, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd o 2008 ac yn y swydd honno bu'n gweithio gydag arbenigwyr ac amrywiaeth eang o sefydliadau addysgol i gynnig cyngor ar bolisi addysgol a oedd yn gysylltiedig ag addysgu ieithoedd a hefyd ar fentrau er mwyn cynyddu dysgu ieithoedd ar draws y DU. Cyn ymuno â CILT, treuliodd 30 mlynedd yn gweithio dros y British Council mewn nifer o swyddi rhyngwladol a rheoli. Hefyd bu'n arwain ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg CfBT ar ddatblygu Strategaeth ieithoedd ac ar gyflawni nifer o brosiectau cenedlaethol i gynorthwyo addysgu ieithoedd yn ysgolion Lloegr. Mae hi bellach wedi lled-ymddeol, ac yn parhau i weithio ar brosiectau ymchwil lle gall gyflwyno ei harbenigedd. Mae Kathryn yn siarad Sbaeneg, Almaeneg ac Iseldireg ac ar hyn o bryd mae'n gweithio'n galed i wella ei Harabeg.



## Teresa Tinsley

Sefydlodd a datblygodd Teresa Tinsley gyfres o arolygon Tueddiadau Ieithoedd sy'n mapio iechyd ieithoedd mewn sectorau addysg amrywiol ers 2002. Yn ogystal â chynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth ar sefyllfa ieithoedd yn ysgolion uwchradd Lloegr, mae'r arolygon hefyd wedi edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd cymunedol ledled y DU, a dysgu ieithoedd ym maes Addysg Bellach ac Addysg Oedolion.

Roedd Teresa'n arfer bod yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu yn CILT, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd, sefydlodd Alcantara Communications yn 2011 ac ers hynny mae wedi gwneud ymchwil ar ieithoedd sy'n canolbwyntio ar bolisïau ar gyfer yr Academi Brydeinig a'r British Council, yn ogystal ag Ymddiriedolaeth Addysg CfBT. Mae ei gwaith ar gyfer CfBT yn cynnwys arolwg rhyngwladol o ieithoedd cynradd, *Lessons from abroad*, yn ogystal ag adroddiadau Tueddiadau Ieithoedd o 2011 i 2014.

# Cydnabyddiaeth

Mae'r awduron yn dra diolchgar i Nia Jones o CILT Cymru, i Penny Lewis o Estyn, i Ceri James ac i staff yn British Council Cymru am gynorthwyo'r prosiect ymchwil hwn mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys annog ysgolion i ymateb i'r arolwg, cynnig sylwadau wrth ddylunio'r holiadur a'n helpu ni i ddadansoddi a dehongli'r data.

Hoffem yn arbennig gydnabod amser ac ymdrech yr holl athrawon a gwblhaodd arolwg eleni a darparu cymaint o dystiolaeth a sylwadau cyfoethog i'r ymchwilwyr. Mae'r wybodaeth y mae'r ymatebwyr wedi'i rhoi yn hanfodol wrth ddeall y darlun cenedlaethol ac wrth ddatblygu ein gallu ni i gyd i wella'r ddarpariaeth.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **4** |
| **1 Cyflwyniad** | **9** |
| 1.1 Y cyd-destun polisi | 9 |
| 1.2 Gwerth ieithoedd | 13 |
| **2 Cynllunio'r ymchwil a chasglu'r data** | **16** |
| 2.1 Dadansoddi data arholiadau | 16 |
| 2.2 Datblygu'r holiadur | 16 |
| 2.3 Casglu'r data | 17 |
| 2.4 Dadansoddi'r data | 18 |
| **3 Data arholiadau ysgol yng Nghymru** | **19** |
| 3.1 TGAU | 19 |
| 3.2 Safon Uwch | 21 |
| **4 Y ddarpariaeth ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern yng Nghymru** | **23** |
| 4.1 Cyfnod Allweddol 3 | 23 |
| 4.2 Cyfnod Allweddol 4 | 27 |
| 4.3 Ôl-16 | 30 |
| 4.4 Yr ieithoedd tramor a addysgir | 34 |
| 4.5 Cyfleoedd i ddysgu mwy nag un iaith dramor | 39 |
| 4.6 Cryfderau a heriau | 42 |
| 4.7 Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i athrawon | 45 |
| 4.8 Pwyntiau allweddol | 47 |
| **5 Effaith dwyieithrwydd** | **48** |
| 5.1 Canfyddiadau o fudd dwyieithrwydd | 49 |
| 5.2 Cyfraniad i lythrennedd | 52 |
| 5.3 Rhannu arferion ag athrawon Cymraeg a Saesneg | 54 |
| 5.4 Pwyntiau allweddol | 56 |
| **6 Casgliadau** | **57** |
| **Cyfeiriadau** | **60** |
| **Atodiad: Proffiliau ymateb** | **62** |

# Crynodeb gweithredol

Mae'r arolwg cenedlaethol cyntaf hwn o addysgu ieithoedd tramor yn ysgolion Cymru'n dod ar adeg pan fo addysg yng Nghymru'n newid yn sylweddol. Bellach mae'n edrych fel y bydd diwygiadau diweddar fel cyflwyno Bagloriaeth Cymru a Llwybrau Dysgu 14–19 yn cael eu cynnwys o fewn y cwricwlwm a'r fframwaith asesu newydd, arbennig i Gymru, a gynigiwyd gan yr Athro Donaldson. Fel cenedl ddwyieithog, mae gan Gymru fantais o ran dysgu ieithoedd eraill, gan fod ymchwil yn dangos, ar ôl dysgu un iaith ychwanegol, fod myfyrwyr yn ei chael hi'n haws dysgu ieithoedd eraill.[1] Fodd bynnag, mae data a gyhoeddwyd gan yr Academi Brydeinig[2] yn dangos mai Cymru sy'n perfformio waethaf o bedair cenedl y DU wrth ddysgu ieithoedd eraill.

Wrth i Gymru weithio i ddiwygio ei threfniadau cwricwlwm ac asesu, mae'r adroddiad hwn yn adolygu iechyd addysgu ieithoedd tramor yng Nghymru ac yn edrych i ba raddau y mae'r trefniadau presennol yn rhoi'r sgiliau iaith, rhyngddiwylliannol a chyfathrebu i ddisgyblion gymryd rhan lawn mewn byd wedi'i globaleiddio, o gofio mai 22 y cant yn unig o ddisgyblion ar hyn o bryd sy'n sefyll TGAU mewn ieithoedd heblaw am Saesneg neu Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ceisio darparu tystiolaeth am effaith mentrau polisi blaenorol ar addysgu ieithoedd tramor yn ysgolion uwchradd Cymru.

Bydd defnyddwyr medrus ieithoedd eraill a all gyfathrebu'n hyderus ac sy'n gyfforddus mewn gwahanol leoliadau diwylliannol yn gwneud cyfraniad mawr i sicrhau bod Cymru'n gwireddu ei gobeithion o ran cystadleurwydd a ffyniant y wlad mewn 21ain ganrif gymhleth, sydd wedi'i globaleiddio. Mewn cyd-destun lle mae pwyslais cynyddol ar wella llythrennedd disgyblion yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae'r adroddiad yn edrych ar y berthynas rhwng Ieithoedd Tramor Modern (ITM)[3] ac addysgu Cymraeg/Saesneg ac i ba raddau y mae'r profiadau dysgu hyn yn cyfuno – neu y gallant gyfuno – i helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru i ddod yn siaradwyr hyderus ac yn ddysgwyr amrywiaeth o ieithoedd eraill.

## Canfyddiadau allweddol

**Mae Ieithoedd Tramor Modern yn cael eu gwthio fwyfwy i'r cyrion o ganlyniad i nifer o newidiadau y mae ysgolion yn eu gwneud i ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau ariannol ac amserlennu yn ogystal â systemau asesu a gofynion adrodd newydd.**

**Nid yw ysgolion yn manteisio'n llawn ar fudd sylweddol dwyieithrwydd sydd ar gael i Gymru er mwyn hwyluso dysgu trydedd neu bedwaredd iaith.**

**Ni werthfawrogir y cyfraniad y gall dysgu ieithoedd tramor ei wneud i wella llythrennedd disgyblion ac nid yw llawer o ysgolion yn gweld bod ITM yn ganolog er mwyn cyflawni nodau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh).**

**Mae'r lefelau isel o ran gwerthfawrogi ieithoedd gan rieni a chan ddisgyblion yn arbennig yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion o ran gweld ITM yn bwnc i'w astudio o ddifrif. Nid yw safbwyntiau o'r fath yn cael eu hateb gan negeseuon y rhai sy'n llunio polisïau ac yn dylanwadu arnynt.**

[1] Cenoz, J. a Valencia, J. (1994) *Additive trilingualism: evidence from the Basque country*. Abu-Rabia, S. a Sanitsky, E. (2010) 'The advantages of bilinguals over monolinguals in learning a third language', *Bilingual research journal*. Cyf 33.2, tt.173–199. Gweler hefyd y drafodaeth yn Cummins, J. (2000) *Language, power and pedagogy: bilingual children in the crossfire*.
[2] Yr Academi Brydeinig (2013) *Languages: the state of the nation*.
[3] **Nodyn am y derminoleg**
Gydol yr adroddiad hwn defnyddiwyd y term 'Ieithoedd Tramor Modern' a'r byrfodd 'ITM' i ddynodi'r pynciau a astudir gan ddisgyblion yn ysgolion uwchradd Cymru. Cyfeirir at astudio Ieithoedd heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg fel 'ieithoedd tramor' i osgoi unrhyw gymysgu ag astudio Cymraeg neu Saesneg. Defnyddir y term generig 'ieithoedd' i gyfeirio at y system gyfathrebu ysgrifenedig neu lafar a ddefnyddir gan wlad neu gymuned arbennig.

**Cyfnod Allweddol 3**
Mae bron i draean yr ysgolion (29 y cant) yn datgymhwyso disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion o astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae hyn o ganlyniad i bwyslais cynyddol ar Saesneg a mathemateg.

Er gwaethaf canllawiau Estyn o ran amser y cwricwlwm ar gyfer ITM, mae cynifer â 43 y cant o'r ysgolion wedi gostwng yr amser gwersi a neilltuir i ITM dros y tair blynedd diwethaf.

Er bod 50 y cant o'r ysgolion yn adrodd bod rhai disgyblion sy'n dod atyn nhw o Gyfnod Allweddol 2 wedi cael profiad o iaith dramor arall heblaw am Gymraeg neu Saesneg, prin y mae'r wybodaeth sydd ganddynt yn fwy nag ychydig eiriau neu ymadroddion. Mae'r disgyblion sydd â mwy na hyn yn fwyaf tebygol o ddod o Loegr neu o dramor.

Mae amryw o ffactorau'n cyfyngu ar faint ac effeithiolrwydd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon ITM yng Nghymru.

**Cyfnod Allweddol 4**
Ym mwyafrif helaeth yr ysgolion (93 y cant) mae ITM yn ddewisol yng Nghyfnod Allweddol 4 i bob disgybl.

Mae bron i hanner yr ysgolion a ymatebodd (47 y cant) yn adrodd bod niferoedd yn gostwng ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 4, ac mewn un o bob pum ysgol mae'r gostyngiad hwn yn 10 y cant neu ragor o'r disgyblion. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion yn gweithio'n galed i godi proffil y pwnc ac wedi llwyddo i gynyddu'r niferoedd.

Gwelir mai'r rhesymau dros y gostyngiad mewn astudio ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 4 yw'r canfyddiad fod arholiadau iaith yn anodd o'u cymharu â rhai mewn pynciau eraill a nifer y pynciau sydd ar gael mewn perthynas â'r lle sydd ar gael yn y cwricwlwm ar gyfer dewisiadau rhydd. Hefyd mae athrawon yn gweld bod Bagloriaeth Cymru yn debygol iawn o gael effaith andwyol ar y rhai sy'n astudio Ieithoedd Tramor Modern yn y dyfodol oherwydd y ffordd y mae'r dewisiadau astudio wedi'u grwpio.

Mae nifer yr ysgolion sy'n cynnig dewisiadau eraill galwedigaethol yn lle achrediadau iaith TGAU yn dal i fod yn fach: mae tua 13 y cant o'r ysgolion yn cynnig Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) mewn ieithoedd busnes ac mae saith y cant yn cynnig modiwlau iaith o fewn Bagloriaeth Cymru fel dewis yn lle TGAU yng Nghyfnod Allweddol 4.

**Ôl-16**
Mae cynifer â 64 y cant o'r ysgolion wedi gweld gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n dewis sefyll Safon Uwch mewn iaith dramor dros y tair blynedd diwethaf. Mae tri chwarter yr ymatebwyr yn ystyried bod y niferoedd isel sy'n astudio ITM ôl-16 yn fater heriol, mwy hyd yn oed na'r rhai sy'n poeni am y niferoedd sy'n astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4.

Yn gyffredinol mae mwyafrif sylweddol yr ysgolion yn gweld bod cystadleuaeth a blaenoriaethu pynciau eraill a'r niferoedd isel sy'n astudio ITM yn bryderon enbyd. Mae cynifer â 61 y cant o'r athrawon yn dweud nad yw ITM yn ddigon o flaenoriaeth i'r uwch-reolwyr yn eu hysgolion.

**Yr ieithoedd a addysgir**
Ffrangeg yw'r brif iaith dramor a addysgir yng Nghymru o gryn dipyn; llai na hanner yr ysgolion sy'n cynnig Sbaeneg a chwarter yn unig sy'n cynnig Almaeneg. Mae bron i hanner (49 y cant) yn cynnig rhai cyfleoedd i ddysgu ail iaith dramor, gyda'r cyfleoedd i wneud hyn yn gysylltiedig ag ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau mwy breintiedig.

**Dwyieithrwydd a'i gyfraniad i lythrennedd**
Mae cynifer â 89 y cant o athrawon ITM o'r farn fod dysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol gynradd o fudd i ddisgyblion wrth ddod i ddysgu iaith dramor yn yr ysgol uwchradd, ac mae bron i draean (60 y cant) yn credu ei fod o fudd mawr. Fodd bynnag, cred llawer o athrawon mai dim ond os yw disgyblion wedi cael addysgu Cymraeg o ansawdd uchel mewn ysgolion cynradd y gellir cyflawni budd dwyieithrwydd – mae nifer yn gwneud sylwadau nad fel hynny y mae hi wedi bod ac o ganlyniad fod disgyblion yn cael anawsterau wrth ddysgu ieithoedd tramor.

Felly hefyd, mae mwyafrif helaeth yr athrawon (83 y cant) a ymatebodd i'r arolwg hwn yn adrodd yr ystyrir bod ITM yn gwneud o leiaf ychydig o gyfraniad i lythrennedd yn eu hysgol; fodd bynnag, yn nhraean yr ysgolion yn unig (35 y cant) yr ystyrir eu bod yn gwneud cyfraniad mawr. Yn 16 y cant o'r ysgolion nid ystyrir bod ITM yn gwneud llawer o gyfraniad ac mewn un ysgol mae'r ymatebydd yn adrodd nad ystyrir eu bod yn gwneud unrhyw gyfraniad o gwbl. Mae'r sylwadau a wnaed gan athrawon a gymerodd ran yn yr arolwg hwn yn awgrymu bod cryn ddryswch mewn ysgolion ynghylch y rôl sydd gan Ieithoedd Tramor Modern i'w chwarae wrth gynorthwyo datblygiad llythrennedd a'r ffordd y gallant gyfrannu i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh).

Er bod arwyddion bod cyfraniad Cymraeg a Saesneg i ddysgu ieithoedd tramor yn tueddu i gael ei werthfawrogi'n fwy mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog nag mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r ymwybyddiaeth o werth cyfatebol ieithoedd tramor o ran llythrennedd cyffredinol yn llai amlwg.

**Cydweithio rhwng athrawon ieithoedd gwahanol**
Llai na hanner (46 y cant) yr ysgolion sy'n cynnig cyfleoedd rheolaidd i athrawon ITM, Cymraeg a Saesneg rannu arferion â'i gilydd. Yn anaml y mae tua 46 y cant yn gwneud hynny ac nid yw naw y cant yn gwneud hynny o gwbl. Mewn rhai ysgolion cyfrwng Saesneg, mae tystiolaeth o gydweithredu llwyddiannus rhwng athrawon Cymraeg a'r rhai sy'n addysgu Ieithoedd Tramor Modern.

## Casgliadau

**Mae Ieithoedd Tramor Modern yn cael eu gwthio fwyfwy i'r cyrion o ganlyniad i nifer o newidiadau y mae ysgolion yn eu gwneud i ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau ariannol ac amserlennu yn ogystal â systemau asesu a gofynion adrodd newydd.**

Darlun o athreuliad yw'r darlun cyffredinol ar gyfer ITM yn ysgolion Cymru, a phrin yw'r gobaith y gwelir gwella pethau neu atal y dirywiad. Nid oes ymdeimlad o egni neu hyder am gyfeiriad y pwnc a'r hyn a ddigwydd yn y dyfodol.

Mae'r gostyngiad mewn amser gwersi ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 3, lle ITM fel pwnc dewisol o fewn amrywiaeth helaeth o ddewisiadau eraill a'r diffyg cyfleoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 i bob disgybl sy'n dymuno astudio iaith, i gyd yn ychwanegu at yr argraff fod y pwnc ar y cyrion o

fewn system addysg Cymru. Yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban, nid oes polisi i ddisgyblion ddechrau dysgu iaith dramor cyn y byddant yn 11 oed, gyda'r goblygiad fod Cymru'n debygol o syrthio hyd yn oed ymhellach ar ei hôl hi yn y dyfodol, gyda goblygiadau difrifol ar gyfer cymaroldeb arholiadau TGAU Cymru a Lloegr mewn pynciau ieithoedd tramor.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, yr unig gyfnod addysg pan fydd astudio ITM yn orfodol yng Nghymru, lleiafswm profiad neu brofiad darniog yn unig o ddysgu iaith dramor a gaiff llawer o ddisgyblion. Pan fydd disgyblion yn dewis eu pynciau TGAU, nid yw ieithoedd tramor yn gwneud yn dda gan yr ystyrir eu bod yn anos na llawer o bynciau eraill, yn annarogan o ran cyflawni'r graddau uchaf sydd eu hangen er mwyn mynd ymlaen i astudio Safon Uwch a heb fod cyn bwysiced ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol â phynciau STEM.

Mae'r sefyllfa ôl-16 yn peri mwy fyth o bryder. Mae'r niferoedd isel iawn o fyfyrwyr sy'n dewis ITM yn golygu, mewn nifer o achosion, fod cyrsiau'n mynd yn anhyfyw'n ariannol. Materion eraill sy'n cyfrannu i'r gostyngiad mewn niferoedd ar Safon Uwch yw'r canfyddiad fod arholiadau Safon Uwch mewn ITM yn anos o'u cymharu â'r rhai ar gyfer pynciau eraill a bod angen i fyfyrwyr fod yn fwy sicr o ennill y graddau uchaf ar Safon Uwch er mwyn derbyn lleoedd prifysgol.

**Nid yw ysgolion yn manteisio'n llawn ar fudd sylweddol dwyieithrwydd sydd ar gael i Gymru er mwyn hwyluso dysgu trydedd neu bedwaredd iaith.**

Er bod tystiolaeth fod dwyieithrwydd yn hwyluso dysgu rhagor o ieithoedd, ni wireddir y budd hwnnw yng Nghymru, sydd â'r nifer isaf yn astudio Ieithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 4 o bob un o wledydd y DU.

Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r ffordd yr addysgir Cymraeg, yn enwedig mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, y dywed athrawon nad yw'n ymddangos fel petai'n cael ei anelu at ddatblygu sgiliau dysgu iaith ehangach. Dengys y dystiolaeth yr ystyrir Saesneg, Cymraeg ac ITM yn y rhan fwyaf o ysgolion yn bynciau cwbl ar wahân heb botensial ar gyfer cydweithredu neu ymagweddu cyffredin tuag at addysgu. Arweinia hyn at y canfyddiad, er gwaethaf canllawiau swyddogol, nad oes gan ITM ddim i'w wneud â llythrennedd yn Saesneg neu yn Gymraeg, canfyddiad sy'n effeithio'n andwyol ar allu disgyblion i drosglwyddo'r hyn a ddysgant o'r naill iaith i'r llall.

Mae'r cynllun arfaethedig i gyflwyno cwricwlwm newydd sy'n galw am welliannau yn y ffordd yr addysgir Cymraeg ac sy'n gosod Saesneg, Cymraeg ac ITM o fewn yr un maes astudio, yn cynnig cyfle i wella hyn.

**Ni werthfawrogir y cyfraniad y gall dysgu ieithoedd tramor ei wneud i wella llythrennedd disgyblion ac nid yw llawer o ysgolion yn gweld bod ITM yn ganolog er mwyn cyflawni nodau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh).**

Mae'r adroddiad yn amlygu bod mwy o ymwybyddiaeth gyffredinol o'r budd y gall dysgu Cymraeg a Saesneg ei gael o ran astudio iaith dramor, nag sydd o'r syniad y gall hyn weithio i'r cyfeiriad arall hefyd. Mae'n bosib fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r cysylltiad rhwng ieithoedd tramor a llythrennedd wedi'i wneud yn benodol yn nogfennaeth y FfLlRh, er yn sicr fod digon yn nogfennaeth y FfLlRh i annog ysgolion i gynnwys ITM ynghyd â phynciau eraill y cwricwlwm yn eu gwaith i ddatblygu llythrennedd disgyblion. Mae llawer o'r gweithgareddau y mae disgyblion yn eu gwneud

mewn ystafelloedd dosbarth ITM yn cynorthwyo llythrennedd ehangach, gan gynnwys cysylltiadau sain/sillafu, strategaethau darllen, gwaith gramadeg cymharol a gweithgareddau ysgrifennu estynedig.

Mae'r dystiolaeth o'r arolwg hwn yn awgrymu bod nifer o ysgolion yn ddryslyd ynghylch y rôl y gall ITM ei chwarae wrth ddatblygu llythrennedd. Byddai mwy o ymwybyddiaeth o sut gall ieithoedd tramor wneud cyfraniad nid yn unig yn cynorthwyo mwy o gydweithredu ysgol-gyfan tuag at wella lefelau llythrennedd ac yn sicrhau canlyniadau gwell yn erbyn nodau'r FfLlRh i blant ysgol Cymru, ond byddai hefyd yn rhoi mwy o gydnabyddiaeth i rôl werthfawr dysgu ieithoedd tramor yn addysg plant.

**Mae'r lefelau isel o ran gwerthfawrogi ieithoedd gan rieni a chan ddisgyblion yn arbennig yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion o ran gweld ITM yn bwnc i'w astudio o ddifrif. Nid yw safbwyntiau o'r fath yn cael eu hateb gan negeseuon y rhai sy'n llunio polisïau ac yn dylanwadu arnynt.**

Er gwaethaf y llu ffynonellau tystiolaeth sy'n amlygu'r cyfraniad y gall sgiliau ieithoedd tramor ei wneud i dwf economaidd cenedl a lles ei dinasyddion, ychydig iawn sydd o ran polisi Llywodraeth Cymru neu arfer mwyafrif y rhanddeiliaid a'r rhai allweddol sy'n dylanwadu yng Nghymru i ddangos ymroddiad i ieithoedd y tu hwnt i'r Gymraeg a'r Saesneg neu i feithrin gwerthfawrogiad o werth ieithoedd ymysg pobl ifanc, eu rhieni a darpar gyflogwyr. O ran agweddau, mae Cymru'n debyg iawn i rannau eraill o'r DU lle mae diffyg dealltwriaeth am werth ieithoedd tramor yn gyffredin. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diweddar mae'r Alban a Lloegr wedi cyflwyno polisïau er mwyn gwella sefyllfa dysgu ieithoedd tramor yn y cwricwlwm.

Mae'r arolwg gan yr Athro Donaldson a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r cwricwlwm a systemau asesu yng Nghymru yn nodi'n eglur iawn y bydd sgiliau wedi'u datblygu'n dda mewn Cymraeg a Saesneg yn cynorthwyo'r broses o ddysgu trydedd a phedwaredd iaith ac yn helpu Cymru i fanteisio i'r eithaf ar ei photensial llawn fel cenedl hyderus a chystadleuol. Fodd bynnag, heb bolisi cadarn ar addysgu ieithoedd tramor i wrthweithio'r niferoedd isel iawn sy'n astudio ieithoedd tramor a'r gostyngiad sydyn yn y niferoedd hynny, yn enwedig ar lefel ôl-16, mae'n annhebygol y gwireddir y potensial hwn.

Mae ymatebion athrawon i'n harolwg yn awgrymu nad yw mwyafrif pobl ifanc a rhieni yng Nghymru'n ymwybodol o'r budd sydd i sgiliau mewn ieithoedd a dealltwriaeth ryngddiwylliannol o ran manteision ar gyfer astudio, datblygiad personol a chyflogaeth, ac awgrymir hefyd nad ydynt chwaith yn gwerthfawrogi'r budd hwnnw. Nid yw'r gymuned ieithoedd yn ei chyfanrwydd yn llwyddo i fanteisio ar ganfyddiadau ymchwil er mwyn gwneud achos cryf dros ddysgu ieithoedd tramor mewn termau y gall rhanddeiliaid a rhai dylanwadol allweddol eu deall.

I atal dirywiad syfrdanol ieithoedd tramor mewn ysgolion ledled Cymru ac i roi sylw i'r canfyddiad cyffredinol nad yw ieithoedd tramor yn bwysig nac yn ddefnyddiol iawn, bydd angen gweithredu unedig ar y lefel uchaf, er mwyn rhoi sylw i'r heriau systemig/strwythurol y mae ysgolion yn eu hwynebu ac i ddechrau mynd i'r afael ag agweddau cymdeithasol annefnyddiol sydd wedi hen galedu. Mae gan y cwricwlwm newydd a gynigiwyd gan yr Athro Donaldson botensial i ddod â phob un o'r pynciau iaith yn nes at ei gilydd ac i alluogi plant yng Nghymru i ddod i ddefnyddio tair neu ragor o ieithoedd yn hyderus. Fodd bynnag, heb gyfeiriad ac arweiniad eglur i ysgolion ac ymwneud dyfal arbenigwyr ITM, mae perygl hefyd y bydd ITM yn cael eu gwthio ymhellach i'r cyrion fel pwnc astudio.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 | Y cyd-destun polisi

Mae'r arolwg cenedlaethol cyntaf hwn o addysgu ieithoedd tramor yn ysgolion Cymru yn dod ar adeg pan fo addysg yng Nghymru yn newid yn sylweddol. Mae'r broses o wahaniaethu graddol o strwythur y cwricwlwm a'r system arholi a rennid yn draddodiadol â Lloegr wedi cyflymu yn y blynyddoedd diweddar wrth gyflwyno'r Fagloriaeth Gymreig, Llwybrau Dysgu 14–19, a gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed.[4] Yn ddiweddar cyhoeddwyd adolygiad cynhwysfawr o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu cenedlaethol gan yr Athro Graham Donaldson a bydd hwn, o'i weithredu'n llwyddiannus, yn creu system arbennig o addysgu, dysgu ac asesu yng Nghymru gyda nifer o elfennau'n debyg i'r cwricwlwm cyfredol yn yr Alban.

Yn dilyn ei Hadolygiad o Gymwysterau, ac yng ngoleuni'r diwygiadau i arholiadau TGAU a Safon Uwch yn Lloegr, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi creu corff newydd, Cymwysterau Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu cymwysterau sy'n 'fwy perthnasol ac ymatebol i anghenion Cymru'.[5] Mae CBAC, bwrdd arholi Cymru, wedi cyhoeddi manylebau newydd ar gyfer y pynciau craidd Cymraeg, Saesneg a mathemateg, a addysgir o fis Medi 2015. Mae'r rhain yn wahanol i'r cymwysterau diwygiedig yn Lloegr yn yr ystyr eu bod yn cadw dull modiwlar ac elfen o asesiad athro. Yn ddiweddar mae CBAC wedi ymgynghori ar y cynnwys a'r meini prawf asesu ar gyfer pynciau eraill, gan gynnwys Ieithoedd Tramor Modern (ITM) a chyflwynir y rhain yn 2016.

Fel cenedl ddwyieithog, mae gan Gymru fantais o ran dysgu ieithoedd eraill, gan fod ymchwil yn dangos, ar ôl dysgu un iaith ychwanegol, fod myfyrwyr yn ei chael hi'n haws caffael ieithoedd eraill.[6] Fodd bynnag, mae data a gyhoeddwyd gan yr Academi Brydeinig[7] yn dangos mai Cymru sy'n perfformio waethaf o bedair cenedl y DU wrth ddysgu ieithoedd eraill. Hefyd mae adroddiad diweddar gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi canfod bod Cymru yn llusgo'r tu ôl i weddill y DU mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm a bod rhai sydd yn eu harddegau yng Nghymru yn perfformio'n wael yn erbyn safonau rhyngwladol mewn gwyddoniaeth, mathemateg a darllen.[8] Wrth i Gymru geisio diwygio ei chwricwlwm a'i threfniadau asesu er mwyn sicrhau bod cyflawniad disgyblion Cymru yn cyd-fynd â rhai gwledydd datblygedig eraill, mae hon yn adeg briodol i adolygu pa mor iach yw addysgu ieithoedd tramor yng Nghymru ac i edrych i ba raddau y mae disgyblion yn cael sgiliau iaith, rhyngddiwylliannol a chyfathrebu sy'n eu galluogi i gymryd rhan yn llawn mewn byd wedi'i globaleiddio. Gyda Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg,[9] mae'r adroddiad hwn yn ceisio edrych ar effaith dwyieithrwydd ar ddysgu trydedd iaith ac ieithoedd dilynol yng Nghymru.

Hefyd mae'r adroddiad yn ceisio darparu tystiolaeth am effaith mentrau polisi blaenorol ar addysgu ieithoedd tramor modern yn ysgolion uwchradd Cymru a dangos pwysigrwydd y pwnc o fewn y cyd-destun addysgol arbennig yng Nghymru.

[4] Llywodraeth Cymru (2013)
[5] http://www.cymwysteraucymru.org/cyflwyniad-i-gymwysterau-cymru/?force=2
[6] Cenoz a Valencia (1994); Abu-Rabia a Sanitsky (2010); Cummins (2000)
[7] Yr Academi Brydeinig (2013)
[8] OECD (2014)
[9] Llywodraeth Cymru (2014)

### Ieithoedd Tramor Modern yn y cwricwlwm

Cyn datganoli, roedd y cwricwlwm cenedlaethol a ddatblygwyd ar gyfer Cymru yn adlewyrchu'r un yn Lloegr heblaw bod gofyn i bob disgybl astudio Cymraeg a Saesneg drwy gydol addysg orfodol. Creodd hyn wasgfa ar faint o amser y cwricwlwm a oedd ar gael i bynciau eraill a dyma'r rheswm pam, ar yr adeg pan wnaed astudio iaith dramor yn orfodol i bob disgybl yn Lloegr gydol Cyfnodau Allweddol 3 a 4, na fabwysiadodd y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru y gofyniad bod rhaid astudio iaith dramor. Mae'n bosib fod hyn hefyd yn esbonio pam mai cymharol ychydig o sylw polisi y mae addysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd yng Nghymru wedi'i gael hyd yma. Yn Lloegr, rhoddwyd y gorau i'r gofyniad bod rhaid astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2004, ond yn lle hynny gosodwyd targed ar gyfer cyflwyno addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd. O fis Medi 2014 ymlaen, mae addysgu iaith fodern neu iaith hynafol wedi dod yn statudol i bob disgybl yn Lloegr yng Nghyfnod Allweddol 2.

Yng Nghymru, fel yn Lloegr, mae nifer y disgyblion sy'n parhau i ddysgu iaith dramor y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 3 wedi bod yn achos pryder ers tro. Cyflwynodd dogfen bolisi 2010 'Sicrhau bod Ieithoedd yn Cyfrif' gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella addysgu a dysgu yn y pwnc.[10] Roedd yn canolbwyntio ar wella ansawdd y profiad dysgu iaith i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 ac ar weithredu i ddatblygu'r cyfnod 14–19. Roedd hyn yn cynnwys cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cymwysterau eraill ar lefel TGAU a chysylltiadau busnes/addysg a oedd yn canolbwyntio ar ieithoedd tramor. Yn fwyaf arwyddocaol, rhoddodd le amlwg i ieithoedd tramor o fewn Bagloriaeth newydd Cymru. Roedd gofyn i bob myfyriwr gwblhau modiwl iaith dramor 20 awr o fewn llinyn 'Cymru, Ewrop a'r Byd'. I gynorthwyo'r modiwl hwn, datblygodd CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd yng Nghymru, mewn partneriaeth â CBAC, ei rhiant-gwmni, ddeunyddiau ieithoedd tramor a gafodd eu peilota mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach a gyflwynai Fagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r Adolygiad o Gymwysterau, mae'r modiwl iaith dramor gorfodol bellach wedi cael ei dynnu o Fagloriaeth Cymru, er bod ITM yn parhau'n elfen ddewisol. Gwnaed y penderfyniad i wyrdroi'r polisi o gynnwys astudio iaith dramor yn elfen orfodol o fewn Bagloriaeth Cymru ar y sail fod gwahaniaeth yn ansawdd y cyflwyno rhwng canolfannau a bod amheuaeth a allai dysgwyr elwa mewn gwirionedd o gyfnod astudio mor fyr.[11] Fodd bynnag, gwrthodwyd cynnwys elfen iaith fwy sylweddol ar y sail y byddai'n gorlenwi'r cymhwyster.[12]

Mae'r cwricwlwm newydd a gynigiwyd gan yr Athro Donaldson yn gosod ITM mewn un maes dysgu, ynghyd â Chymraeg a Saesneg. Byddai hyn yn dod â'r holl bynciau iaith yn nes at ei gilydd ac mae ganddo'r potensial i hybu dysgu drwy alluogi sgiliau i gael eu trosglwyddo rhwng ieithoedd. Dywed adolygiad Donaldson mai 'diben y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu fel... dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd' a dadleua y bydd lefel dda o gymhwysedd yn Gymraeg a Saesneg yn llwyfan cadarn i blant adeiladu sgiliau mewn ieithoedd eraill, boed ar gyfer gwaith, astudio neu bleser. Felly mae'n argymell y dylid gwella addysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd, gan sicrhau bod plant yn caffael dealltwriaeth o: strwythur iaith, y cysylltiadau rhwng sain a sillafu, tarddiad geiriau a'r geiriau cytras rhwng ieithoedd er mwyn eu cynorthwyo wrth ddysgu ieithoedd tramor pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol uwchradd. Mae'r pwysigrwydd ychwanegol a roddir i ddysgu Cymraeg yng nghynigion yr Athro Donaldson yn dilyn adolygiad o'r Gymraeg fel ail iaith a adroddodd yn 2013 ei bod hi'n 'unfed awr ar ddeg' ar Gymraeg ail iaith, gyda chanlyniadau arholiad Cymraeg ail iaith yr isaf o'r holl bynciau ysgol a chyda disgyblion yn adrodd nad yw'r pwnc o ddiddordeb na chwaith yn ddefnyddiol iddynt.[13]

[10] Llywodraeth Cynulliad Cymru a Young Wales (2010)
[11] Huw Lewis, Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, llythyr at y Farwnes Jean Coussins, 21 Ionawr 2014
[12] BBC Ar-lein, 5 Chwefror 2014
[13] Yr Athro Sioned Davies, Cadeirydd Grŵp Adolygu Cymraeg Ail Iaith a arweiniodd y grŵp a gynhyrchodd yr adolygiad *Un Iaith i Bawb* (2013)

Mae Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru yn wynebu cyfyng-gyngor wrth osod safonau ar gyfer yr arholiadau TGAU a Safon Uwch newydd mewn perthynas â'r cymwysterau diwygiedig yn Lloegr, y bwriedir iddyn nhw fod yn fwy heriol o dipyn. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos ieithoedd tramor, lle mae'r safonau newydd yn adlewyrchu'r ffaith y bydd disgyblion yn Lloegr yn cael pedair blynedd ychwanegol o addysgu ieithoedd tramor yn yr ysgol gynradd. Efallai na fydd hyn yn broblem o gofio bod pob disgybl yng Nghymru yn cael addysg yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy gydol yr ysgol gynradd, ond bydd angen i unrhyw wahaniaeth i'r arferion yn Lloegr sicrhau bod disgyblion Cymru yn gyfartal o ran perfformiad academaidd â'r disgyblion cyfatebol yn Lloegr, yn enwedig wrth ymgeisio am leoedd prifysgol.

### Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion uwchradd

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i bob disgybl yng Nghymru astudio iaith dramor gydol Cyfnod Allweddol 3 (11–14 oed). Fodd bynnag, ers i ffocws rhaglen arolygu ysgolion Estyn symud i ffwrdd o bynciau penodol yn 2010, ychydig o wybodaeth fanwl sydd ar gael am arferion addysgu a dysgu ieithoedd tramor yn ysgolion Cymru.

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mae gofyn i athrawon wneud asesiadau athro statudol, ar gyfer pob dysgwr cymwys, o gynnydd mewn ITM (a phynciau eraill di-graidd[14] – er bod y gofyniad hwn o dan ystyriaeth ar hyn o bryd yn rhan o adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm ac asesu). Dengys data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fod ychydig dros dri chwarter y bechgyn (76 y cant) a 88 y cant o'r merched yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (L5+) mewn ITM yn 2014. Y canlyniadau hyn yw'r isaf o'r holl bynciau di-graidd, ac eithrio Cymraeg ail iaith.

Mae niferoedd y rhai sy'n astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4 bob amser wedi bod yn is na'r niferoedd yn Lloegr oherwydd ei statws fel pwnc dewisol. Fodd bynnag, tra oedd cynifer â 55 y cant o'r garfan yng Nghymru yn cymryd iaith i safon TGAU ym 1995, yn 2013, 22 y cant yn unig oedd y gyfran. Dangosodd ffigurau a ddadansoddwyd ac a gyhoeddwyd gan Wales Online am y cyfnod 2009 i 2012 fod nifer sylweddol o ysgolion lle roedd y rhai a safodd TGAU yn y ffigurau sengl, a bod lefelau cyfranogi isel iawn gan ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol uchel.[15] Gan y gall ysgolion benderfynu tynnu pwnc o'r cwricwlwm os nad yw'n denu digon o ddisgyblion am ddwy flynedd yn olynol, mae perygl gwirioneddol y gall y niferoedd bach iawn o ddisgyblion sy'n dewis astudio ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 4 olygu bod ysgolion yn gollwng cyrsiau ITM ar y lefel hon yn llwyr, gan leihau ymhellach nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n astudio neu sy'n cael astudio iaith dramor.

Mae'r niferoedd isel sy'n astudio ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi mynd yn arbennig o enbyd ers cyflwyno Llwybrau Dysgu 14–19 yn 2009. Daeth y rhain â thoreth o ddewisiadau pwnc newydd i gwricwlwm Cymru. Oherwydd yr effaith andwyol ar niferoedd y disgyblion a oedd yn dysgu 'pynciau traddodiadol' fel ieithoedd tramor, cynhaliodd Cynulliad Cymru ymchwiliad i 'ganlyniadau anfwriadol' y Llwybrau Dysgu.[16] Barn y Gweinidog am y canfyddiadau oedd nad cyflwyno'r Llwybrau Dysgu oedd achos y gostyngiad yn niferoedd disgyblion Cymru a oedd yn dysgu ieithoedd tramor ond yn hytrach fod hyn yn adlewyrchu'r dirywiad mewn dysgu ieithoedd tramor sy'n digwydd hefyd mewn gwledydd eraill yn y DU. Fodd bynnag, mae gweithredu polisïau cadarnhaol yn Lloegr fel cyflwyno Bagloriaeth Lloegr fel mesurydd perfformiad wedi arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor mewn addysg uwchradd.[17] Mae gan yr Alban bolisi addysgu ieithoedd '1+2' uchelgeisiol yn ei le ers 2012 sy'n cynnwys targedau

[14] https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Non-Core-Subjects/Results-by-LocalAuthority-Subject-Gender
https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Non-Core-Subjects/Results-by-Subject-Gender-Level
[15] http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/school-pupil-performance-gcse-foreign-2513907
[16] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012)
[17] https://www.gov.uk/english-baccalaureate-information-for-schools

wedi'u monitro'n agos er mwyn cyfrannu i bolisïau ehangach, a hynny i sicrhau safle tymor hir yr Alban gyda'r gwledydd partner rhyngwladol o'i dewis.[18] Yn ddiweddar mae'r Alban wedi cyhoeddi y bydd mwy o gyllid er mwyn sicrhau bod pob disgybl nid yn unig yn dechrau dysgu iaith dramor erbyn blwyddyn gyntaf yr ysgol gynradd, ond eu bod hefyd yn dechrau dysgu trydedd iaith yn nes ymlaen yn ystod eu haddysg gynradd.[19]

Yng Nghymru, mae System Genedlaethol newydd ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yn defnyddio amrywiaeth o fesuryddion perfformiad, gan gynnwys canlyniadau TGAU, i nodi'r ysgolion hynny sydd ag angen gwahanol fathau o gymorth neu a all fod yn ysgolion disglair i ddangos arferion da i eraill. Fodd bynnag, yn wahanol i Loegr lle mae defnyddio Bagloriaeth Lloegr yn fesurydd perfformiad wedi arwain at ragor o ddisgyblion yn astudio ieithoedd tramor, nid yw System Gategoreiddio ysgolion Cymru yn gwahaniaethu rhwng pynciau'r tu hwnt i'r 'dangosyddion craidd' (Cymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) ac felly nid oes unrhyw gymhelliant i ysgolion wella cyfranogi mewn ieithoedd tramor. O 2016, cyflwynir mesurydd perfformiad newydd i ysgolion, o'r enw 'Cynnydd 9'. Bwriad hwn yw 'ysgogi ysgolion i gefnogi pob dysgwr a'i annog i ennill y graddau gorau y gall eu hennill yn Gymraeg neu Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r set o gymwysterau yn ôl ei ddewis, ac i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy allweddol drwy gymhwyster Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd'.[20] Bydd Cynnydd 9 yn seiliedig ar sgôr pob disgybl mewn naw cymhwyster, y bydd pump ohonynt yn canolbwyntio ar Gymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn fwriadol, nid yw'r mesurydd yn cymell unrhyw bynciau penodol eraill a gellir tynnu'r pedwar cymhwyster sy'n weddill o bynciau TGAU eraill, Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, neu gymwysterau galwedigaethol. Felly mae'n edrych yn annhebygol y bydd yn rhoi hwb i'r niferoedd sy'n sefyll arholiadau TGAU mewn ITM yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi unrhyw fanylion perfformiad arholiadau penodol i ITM.

Wrth ymateb i argymhellion a wnaeth Estyn yn 2009 y dylid cynnwys Ieithoedd Tramor Modern mewn cyrsiau galwedigaethol,[21] gofynnwyd i CILT Cymru ddatblygu cynlluniau gwaith a thasgau asesu ar gyfer cyflwyno unedau ieithoedd busnes i'w hasesu fel Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs) ar Lefelau 1 a 2. Yn ddiweddar mae NVQs ieithoedd tramor wedi cael eu dosbarthu fel Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVETs) ac felly maent ar gael i ddisgyblion o dan 16 oed ac yn cael eu cydnabod yn gymwysterau sy'n cyfrannu i fesuryddion perfformiad ysgolion.[22] Wrth ymateb i'r farchnad sy'n dirywio yn Lloegr (lle na ellir defnyddio NVQs mwyach i gyfrannu i dablau perfformiad ysgolion), mae OCR, y corff dyfarnu ar gyfer NVQs, wedi rhoi'r gorau i gynnig y cymhwyster ym mhob iaith ac eithrio'r prif ieithoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae bwrdd arholi CBAC wedi datblygu cymhwyster newydd o'r enw'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau (QCF) sydd ar gael ar dair lefel (Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2) ac mewn chwe iaith. Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys nifer o unedau bach o ryw 10/20 awr o astudio iaith yr un ac mae wedi'i drefnu o amgylch pum thema, e.e. cyfleu gwybodaeth bersonol a threfnu a chynllunio. Mae cymhwyster QCF yn addas i bob math o ddysgwr gan gynnwys plant o oed cynradd yn ogystal ag i oedolion sy'n cymryd cyrsiau galwedigaethol gan fod modd ei deilwra i gwrdd ag anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr neu unigolion.

O ganlyniad i safle gwael Cymru mewn tablau cynghrair rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar fathemateg, gwyddoniaeth a darllen, mae'r pwyslais cryf mewn ysgolion bellach ar lythrennedd mamiaith, rhifedd a gwyddoniaeth, gyda phynciau eraill yn cael ychydig iawn o sylw mewn arolygiadau ysgolion. Yn adroddiad blynyddol diweddaraf Estyn, un cyfeiriad yn unig sydd at ITM (ac un yn unig at ddaearyddiaeth) o'i gymharu â 103 chyfeiriad at 'llythrennedd' a nifer tebyg at 'rhifedd'.[23]

[18] Llywodraeth yr Alban (Mai 2012) **http://www.scotland.gov.uk/Publications/2012/05/3670/downloads**
[19] **http://news.scotland.gov.uk/News/-7-2-million-for-language-learning-1786.aspx**
[20] **http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2014/ks4/?skip=1&lang=cy**
[21] Estyn (2009)
[22] Mae'r rhan fwyaf o'r NVQs eraill bellach wedi'u dosbarthu fel Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus (CVETs) ac i ddisgyblion sydd dros 16 oed yn unig y maent ar gael.
[23] Estyn (2014)

### Ysgolion cynradd

Nid yw ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg yn rhan o'r cwricwlwm cynradd yng Nghymru, felly Cymru, ynghyd â Gogledd Iwerddon, yw'r gwledydd sydd â'r cyfnod gorfodol byrraf o ddysgu ieithoedd tramor gorfodol yn Ewrop. Mae'r ymrwymiad i ieithoedd yng nghwricwlwm cynradd Lloegr yn debygol o ddod yn broblem yn y tymor canolig i Gymru os gwneir y penderfyniad i gysylltu safonau TGAU a Safon Uwch â'r rhai yn Lloegr, wrth i'r blynyddoedd ychwanegol o ddysgu ieithoedd tramor ddechrau cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion Lloegr mewn arholiadau. Yn hynny o beth, mae'n ddiddorol nodi bod plaid Geidwadol Cymru a Phlaid Cymru wedi nodi eu hymrwymiad i gyflwyno ieithoedd tramor fel pwnc gorfodol mewn ysgolion cynradd yng Nghymru petaent yn dod i rym mewn etholiadau yn y dyfodol.[24]

Rhedodd prosiect peilot gwerth £1.5 miliwn wedi'i ariannu gan y llywodraeth a edrychodd ar ddatblygu dysgu ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 2 rhwng 2002 a 2009. Dangosodd adroddiad gwerthuso[25] effaith gadarnhaol ar niferoedd y rhai a oedd yn astudio ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn rhai ysgolion a manteision arbennig i fechgyn yn ogystal ag i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

### Cefnogaeth i ieithoedd tramor yng Nghymru

Ers canol y 1990au mae addysgu ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg wedi manteisio ar gymorth corff cenedlaethol penodol – Canolfan Comenius Cenedlaethol Cymru – a ddaeth yn CILT Cymru yn 2002. Mae'r corff wedi cydlynu amrywiaeth eang o weithgarwch hyfforddi a datblygu i gynorthwyo athrawon, ysgolion a disgyblion ac mae wedi gweithio'n galed i hyrwyddo proffil uwch i ieithoedd ar agendâu'r rhai sy'n llunio polisi, arweinwyr ysgol a busnesau ledled y wlad. O ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol, torrodd Llywodraeth Cymru ddau draean o'r cyllid ar gyfer CILT Cymru yn y flwyddyn ariannol 2013-14, gan leihau cwmpas ei weithgarwch yn ddirfawr. Gwnaed penderfyniad pellach yn ddiweddar i ddileu cyllid CILT yn llwyr o fis Gorffennaf 2015. Yn ei le, bwriad Llywodraeth Cymru yw defnyddio model 'Athro i Athro' drwy gonsortia ysgolion, lle mae athrawon ac ysgolion ag arferion da yn trosglwyddo'r rhain i'w cymheiriaid.

## 1.2 | Gwerth ieithoedd

Mae ein byd o dechnoleg ddigidol gyflym, cyfathrebu gwib a theithio rhyngwladol rhwydd yn cynnig cyfleoedd di-ben-draw i genhedloedd ddatblygu eu ffyniant a'u safle drwy gydweithredu rhyngwladol a mynediad i farchnadoedd newydd. Mae hefyd yn cynnig manteision posibl enfawr i unigolion o ran cyfleoedd ar gyfer astudio, gwaith neu hamdden. Fodd bynnag, er bod Saesneg yn mwynhau statws 'iaith fyd-eang', nid yw cynifer â 75 y cant o boblogaeth y byd yn siarad Saesneg.[26]
Mae sgiliau mewn ieithoedd heblaw am Saesneg a dealltwriaeth o sut mae diwylliannau eraill yn gweithio yn allweddol i gael mynediad i gyfleoedd mewn byd wedi'i globaleiddio yn ogystal ag i ennill ffrindiau, cynghreiriaid a phartneriaid busnes.

O bedair gwlad y DU, mae Cymru yn flaenllaw o ran ei hymrwymiad i fod yn wlad ddwyieithog ac o ran darparu addysg i'w phlant a'i phobl ifanc mewn dwy iaith o 3 i 16 oed. Mae'r Athro Graham Donaldson yn ailadrodd pwysigrwydd yr ymrwymiad hwn yn ei adolygiad ar gyfer Llywodraeth Cymru lle mae'n gosod cyfeiriad newydd i addysg ysgol yng Nghymru.[27]

Er mai ffocws cynigion yr Athro Donaldson yw cryfhau addysg ysgol cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, cred y bydd y sylfaen gadarn hon mewn dysgu iaith o fudd i ddisgyblion wrth ddysgu eu trydedd neu eu pedwaredd iaith yn yr ysgol uwchradd.

[24] http://www.welshconservatives.com/news/movement-inspire-love-language
http://www.leannewood.plaidcymru.org/news/2012/08/10/angen-chwyldroi-dysgu-ieithoedd-yn-ein-hysgolion/
[25] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006)
[26] Yr Academi Brydeinig (2011)
[27] Yr Athro Graham Donaldson (2015)

Mae cyfoeth o dystiolaeth ymchwil sy'n amlygu manteision gwybyddol a deallusol dysgu mwy nag un iaith ac yn wir defnyddiwyd llawer o'r data hyn i ddangos gwerth dwyieithrwydd yng Nghymru.[28] Dangoswyd bod y cymhwysedd meta-ieithyddol sy'n cael ei gaffael drwy ddysgu ieithoedd eraill (gwybodaeth am sut mae iaith yn gyffredinol yn gweithio) yn cael effaith gadarnhaol ar lythrennedd yn y famiaith[29] ac mae astudiaethau yn yr Unol Daleithiau wedi dangos bod cydberthyniad cadarnhaol uniongyrchol rhwng dysgu ieithoedd eraill a chyflawniad uwch nid yn unig yn Saesneg ond hefyd mewn mathemateg.[30]

Mae polisïau sy'n nodi cynlluniau tymor hir ar gyfer twf economaidd, buddsoddiad a ffyniant i Gymru yn ogystal â pholisïau ehangach y DU sy'n cynnwys Cymru, yn eglur fod y DU a Chymru eisiau chwarae rhan weithgar a chystadleuol mewn byd sydd wedi'i globaleiddio fwyfwy. Mae corff sylweddol o dystiolaeth, tystiolaeth sy'n gysylltiedig â pholisi a hefyd tystiolaeth academaidd, sy'n dangos y cysylltiad rhwng sgiliau mewn ieithoedd a thwf allforion.[31] Mae ymchwil gan Brifysgol Caerdydd a gyhoeddwyd yn 2014 ar y berthynas rhwng sgiliau mewn ieithoedd a'r economi'n rhoi tystiolaeth rymus am bwysigrwydd ieithoedd ar gyfer masnach ac mae'n cyfrifo fod gwerth y busnes a gollir i'r DU yn flynyddol oherwydd rhwystrau iaith yn 3.5 y cant o'r cynnyrch domestig gros.[32] Fodd bynnag, prin y mae dogfennau sy'n nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar y gweithlu er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau polisi hyn yn sôn yn benodol am y sgiliau mewn ieithoedd sydd eu hangen er mwyn cael cydweithredu rhyngwladol llwyddiannus. Mae ymchwil rhyngwladol fel yr arolwg Ewropeaidd diweddar o sgiliau ieithoedd ymhlith pobl ifanc yn rhoi darlun clir o ba mor wael y mae'r DU yn perfformio mewn ieithoedd tramor.[33]

Yn 2013 canfu'r Archwiliad Cenedlaethol Sgiliau Strategol i Gymru 'the financial sector middle office functions will require people more highly skilled in financial processes but also with more legal expertise, an international background, language skills and a good knowledge of IT'. Hefyd canfu y byddai angen 'access to language skills' er mwyn datblygu allforion i economïau sy'n datblygu ac fel y gall busnesau Cymru ddeall y ffordd orau iddynt ganolbwyntio eu hymdrechion.[34] Datgelodd yr adroddiad fwlch sgiliau penodol mewn ieithoedd tramor ymysg crefftau medrus a'r proffesiynau, gan amlygu'r angen am ieithoedd tramor wedi'u cyfuno â chyrsiau galwedigaethol o ansawdd uchel.

Mae'r arolwg diweddaraf ledled y DU gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)/Pearson Education and Skills yn dangos bod 65 y cant o fusnesau'n gwerthfawrogi sgiliau mewn ieithoedd tramor ymysg eu gweithwyr, a bod 62 y cant yn anfodlon â sgiliau ieithoedd ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol ryngwladol y rhai sy'n gadael ysgolion/colegau.[35] Fodd bynnag, mae'r ymatebwyr i arolwg y CBI/Pearson yn gosod ieithoedd ar y gwaelod o ran y ffactorau y maent yn eu hystyried wrth recriwtio graddedigion. Golyga hyn, er y cydnabyddir bod angen sgiliau ieithoedd tramor ar y DU i wella perfformiad economaidd, nad yw byd busnes yn mynegi'r galw hwn yn ddigon eglur i hyn gael unrhyw fath o effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu mewn ysgolion neu, yn allweddol, ar ddewisiadau disgyblion.

Mae lefelau sgiliau gwael mewn ieithoedd tramor yn rhwystr difrifol i bobl ifanc yng Nghymru o ran eu datblygiad fel dinasyddion ifanc mewn byd rhyng-gysylltiedig sydd wedi'i globaleiddio yn ogystal ag wrth iddyn nhw chwilio am waith.[36] Mae perygl na fydd pobl ifanc Cymru yn manteisio ar gyfleoedd

[28] Baker (2011)
[29] Narcy-Combes et al. (2007)
[30] Caccavale (2007)
[31] Yr Academi Brydeinig (2013)
[32] Foreman-Peck a Wang (2014)
[33] Y Comisiwn Ewropeaidd (2012)
[34] Llywodraeth Cymru (2013)
[35] CBI/Pearson Education and Skills (2014)
[36] Yr Academi Brydeinig (2014)

i gael profiad rhyngwladol gwerthfawr fel sydd ar gael drwy gynllun Erasmus Plus yr Undeb Ewropeaidd oherwydd sgiliau annigonol mewn ieithoedd tramor.[37] Mae hyn, yn ei dro, yn rhwystro pobl ifanc rhag gallu dangos i ddarpar-gyflogwyr eu bod yn gyfforddus mewn sefyllfaoedd rhyngwladol a bod ganddynt brofiad o'r byd ehangach. Mae adroddiad gan Gymdeithas Recriwtwyr Graddedigion ac eraill yn amlygu pa mor bwysig yw'r 'cymhwysedd byd-eang' hwn i raddedigion Prydain sy'n cystadlu â graddedigion hyfedr o bedwar ban y byd.[38] Gorfodir cwmnïau sy'n dibynnu ar sgiliau o'r fath er mwyn cynnal a thyfu eu busnes i recriwtio dramor oherwydd na allant ddod o hyd i ymgeiswyr cartref sydd â'r sgiliau ieithoedd a rhyngddiwylliannol sydd eu hangen arnynt.[39] Gwelwyd enghraifft o hyn yn ddiweddar mewn datganiad i *The Economist* a wnaed gan Eriez Magnetics, cwmni offer diwydiannol sydd â'i ganolfan yn Ne Cymru, a ddywedodd fod eu swyddi diweddaraf wedi mynd i dramorwyr amlieithog oherwydd nad oedd gan unrhyw un o ymgeiswyr y DU y sgiliau angenrheidiol mewn ieithoedd.[40]

Hefyd mae pwysigrwydd sgiliau mewn ieithoedd er mwyn denu buddsoddiad mewnol wedi cael ei gydnabod yn eang, gydag argaeledd sgiliau mewn ieithoedd ymysg y ffactorau allweddol y mae busnesau'n eu hystyried wrth benderfynu ble maen nhw'n mynd i leoli eu swyddfeydd. Amlygodd adroddiad a wnaed i Lywodraeth yr Alban yn 2011 y niwed a wnaed i'r economi pan unodd un o'r prif gyflogwyr lleol â phartner Ewropeaidd ond pan gollodd y cyfle i gael y Swyddfa Gwerthiant Ewropeaidd yno oherwydd nad oedd y sgiliau mewn ieithoedd angenrheidiol ar gael yn lleol.[41] Ers hynny mae Llywodraeth yr Alban wedi mabwysiadu polisi uchelgeisiol newydd ar ieithoedd, yn seiliedig ar fodel 'mamiaith a dwy'[42] ac mae wedi'i integreiddio'n agos â pholisi tymor hir yr Alban ar gyfer tyfu ei safle a'i hymgysylltu rhyngwladol.

Yn dilyn cyhoeddi adolygiad cynhwysfawr yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer ysgolion Cymru, mae'r arolwg Tueddiadau Ieithyddol yng Nghymru 2014/15 yn tynnu sylw at yr hyn sy'n digwydd gydag addysgu ieithoedd tramor yn ysgolion uwchradd Cymru, ar y berthynas rhwng addysgu ITM a Chymraeg/Saesneg ac i ba raddau y mae'r profiadau dysgu hyn yn cyfuno, neu y gallant gyfuno, i wneud i blant a phobl ifanc Cymru fod yn siaradwyr a dysgwyr hyderus amrywiaeth o ieithoedd eraill. Bydd defnyddwyr medrus ieithoedd eraill a all gyfathrebu'n hyderus ac sy'n gyfforddus mewn gwahanol leoliadau diwylliannol yn gwneud cyfraniad mawr i sicrhau bod Cymru yn gwireddu ei gobeithion o ran cystadleurwydd a ffyniant y wlad mewn 21ain ganrif gymhleth, sydd wedi'i globaleiddio.

[37] Amlygodd astudiaeth a gomisiynwyd gan Senedd Ewrop yn 2010 fod sgiliau iaith annigonol yn rhwystr i godi niferoedd y rhai sy'n astudio ar raglen Erasmus: Senedd Ewrop (2010)
[38] Association of Graduate Recruiters et al. (2011)
[39] Yr Academi Brydeinig (2013)
[40] **http://www.economist.com/news/britain/21645247-woeful-approach-language-education-continues-shout-louder?frsc=dg%7Cd**
[41] Grove (2011)
[42] Gweithgor Ieithoedd Llywodraeth yr Alban (2012)

# 2 Cynllunio'r ymchwil a chasglu'r data

Arolwg Tueddiadau Ieithoedd o ysgolion uwchradd yw'r ymarfer ymchwil cyntaf o'i fath yng Nghymru, er y gwneir arolygon tebyg yn Lloegr yn flynyddol ers 2002.[43] Y nod yw darparu tystiolaeth ar gyfer datblygu polisi drwy fod yn sianel ddwyffordd rhwng ysgolion a'r llywodraeth, ar y naill law'n mapio effaith polisïau'r llywodraeth ar ysgolion ac ar y llall yn adlewyrchu barn a phrofiadau athrawon ITM wrth iddynt addasu i gyd-destunau sy'n newid ar gyfer addysgu ieithoedd modern mewn ysgolion.

## 2.1 | Dadansoddi data arholiadau

Mae ffigurau'r niferoedd sy'n sefyll arholiadau cyhoeddus fel TGAU a Safon Uwch a'u cyflawniad yn un o'r ychydig o ffynonellau cynhwysfawr o ddata cenedlaethol ar sefyllfa ieithoedd tramor mewn ysgolion uwchradd. Felly cyflwynwyd data arholiad sy'n gysylltiedig ag ITM yn rhagarweiniad i ganfyddiadau'r arolwg, er mwyn gosod ymatebion ysgolion mewn cyd-destun ehangach ac fel bod modd eu dehongli'n fwy craff. Mae'r data, a ddarparwyd gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) yn cynnwys dysgwyr o bob oedran a phob math o sefydliadau a safodd yr arholiadau gan gynnwys ysgolion, colegau addysg bellach (AB) a chanolfannau oedolion.

## 2.2 | Datblygu'r holiadur

Datblygwyd yr holiadur ym mis Awst 2014 gan yr ymchwilwyr drwy gydweithredu â grŵp cynghori a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddau gorff a oedd yn comisiynu'r arolwg, British Council (Cymru) ac Ymddiriedolaeth Addysg CfBT, a CILT Cymru. Hefyd cynhaliwyd ymgynghoriadau â Llywodraeth Cymru. Lanlwythwyd yr holiadur – un ddogfen ddwyieithog – i Survey Monkey, y llwyfan arolygon ar-lein ac fe'i treialwyd yn nechrau mis Medi 2014.

Roedd yr holiadur yn ceisio edrych ar y pynciau canlynol:

- Amrywiaeth yr ieithoedd (yn ogystal â Chymraeg a Saesneg) a gynigir mewn ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4, ôl-16 a'r tu allan i amser y cwricwlwm
- Pa un a yw disgyblion yn cael cyfle i ddysgu mwy nag un iaith yn ychwanegol at Gymraeg a Saesneg ac os felly sut trefnir hyn
- I ba raddau y mae athrawon o'r farn fod disgyblion sy'n dysgu ieithoedd tramor yn elwa o fod wedi dysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol gynradd
- I ba raddau y mae athrawon yn rhannu arferion o ran addysgu ieithoedd tramor, Saesneg a Chymraeg
- I ba raddau yr ystyrir bod addysgu ieithoedd tramor yn cynorthwyo'r agenda ehangach i ddatblygu sgiliau llythrennedd, fel y'u diffinnir gan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh)
- Pa faterion y mae athrawon yn eu hystyried yn heriol yng nghyd-destun eu hysgol eu hunain
- Sut mae athrawon yn cael mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer ieithoedd tramor
- Yr achredu a gynigir ar gyfer ieithoedd tramor

[43] Mae'r arolwg diweddaraf wedi'i gyhoeddi yn **http://www.cfbt.com/en-GB/Research/Research-library/2015/r-language-trends-2015**

Yn ogystal, edrychodd yr arolwg ar y canlynol mewn perthynas â chyfnodau allweddol penodol:

**Cyfnod Allweddol 3**

- Pa un a yw pob disgybl yn astudio iaith dramor gydol Cyfnod Allweddol 3 ac unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth a gyflwynwyd dros y tair blynedd diwethaf
- I ba raddau y mae ysgolion uwchradd yn derbyn disgyblion sydd wedi dysgu iaith dramor yn yr ysgol gynradd

**Cyfnod Allweddol 4**

- Pa un a yw ieithoedd tramor yn ddewisol neu'n orfodol i rai disgyblion neu i'r disgyblion i gyd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn yr ysgol
- Pa un a yw unrhyw ddisgyblion yn cael eu hatal rhag astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4
- Tueddiadau cyfredol mewn ysgolion o ran niferoedd y rhai sy'n astudio ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 4

**Ôl-16**

- Tueddiadau cyfredol mewn ysgolion o ran niferoedd y rhai sy'n astudio ieithoedd tramor ôl-16

## 2.3 | Casglu'r data

Ym mis Medi 2014 anfonwyd gwahoddiad i gwblhau'r holiadur ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg i bob un o'r 213 ysgol uwchradd yng Nghymru, wedi'i gyfeirio at y pennaeth ITM. Llofnodwyd y llythyrau gan Brif Weithredwyr Ymddiriedolaeth Addysg CfBT a'r British Council.

Anfonwyd llythyrau atgoffa at benaethiaid ITM i gyrraedd yr ysgolion yn ystod yr wythnos ar ôl hanner tymor, gan roi hyd at 17 Tachwedd iddynt ymateb. Anfonwyd e-bost gyda neges atgoffa arall i'r ysgolion nad oedd wedi ateb erbyn y terfyn amser ac fe'u ffoniwyd gan staff dwyieithog oedd yn gallu esbonio dibenion a phwysigrwydd yr arolwg, a threfnu i fersiynau pdf o'r holiadur gael eu hanfon at y rhai yr oedd yn well ganddynt ymateb drwy e-bost neu ar gopi caled. Yn ddiweddarach trosglwyddwyd yr ymatebion hyn i gronfa ddata Survey Monkey.

Ymatebodd cyfanswm o 136 ysgol uwchradd i'r arolwg, gan roi cyfradd ymateb o 64 y cant. Roedd angen y gyfradd ymateb uchel hon er mwyn sicrhau y byddai'r canfyddiadau'n gynrychioliadol o broffil cenedlaethol ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Mae cymariaethau wedi'u gwneud o'r sampl a gafwyd â phoblogaeth ysgolion yn genedlaethol (gweler yr Atodiad). Yn gyffredinol, mae proffil yr ysgolion a ymatebodd i'n harolwg yn cyfateb yn dda i broffil ysgolion yn genedlaethol o ran eu lleoliad daearyddol, er na chafwyd ymatebion gan unrhyw un o'r pedair ysgol ym Mlaenau Gwent ac un ysgol yn unig ym Merthyr Tudful a ymatebodd. Hefyd mae ysgolion yng Nghasnewydd wedi'u tangynrychioli fymryn ac mae ysgolion yn sir Benfro wedi'u gorgynrychioli fymryn.

O ran iaith yr addysgu, mae'r sampl a gafwyd yn cyfateb yn dda i boblogaeth ysgolion yn genedlaethol: mae 17 y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n 15 y cant o'r holl ysgolion uwchradd yng Nghymru.

O ran bandio, mae'r sampl a gafwyd hefyd yn cyfateb yn dda i'r darlun cenedlaethol.

## 2.4 | Dadansoddi'r data

Roedd diddordeb gan yr ymchwilwyr mewn edrych ar unrhyw batrymau yn yr ymatebion fesul mathau gwahanol o ysgolion. Fodd bynnag, mae'r sampl cymharol fach – 136 ysgol yn unig – yn golygu, o'u torri i lawr ymhellach, fod niferoedd yr ysgolion ym mhob is-sampl yn rhy fach i roi unrhyw ddata dibynadwy ar yr amrywiant ymateb rhwng mathau o ysgolion. Serch hynny, dadansoddwyd yr ymatebion i nifer o gwestiynau fesul mathau o ysgolion, a chynhwyswyd sylwebaeth yn y testun lle gellid gweld unrhyw batrwm. Roedd y categorïau a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:

### Iaith yr addysgu

Roedd y sampl yn cynnwys chwe math o ysgol, wedi'u categoreiddio fesul iaith yr addysgu (gweler yr Atodiad). Cynrychiolir rhai mathau gan niferoedd bach iawn o ymatebwyr. Er mwyn mesur effaith dwyieithrwydd, a chan gydnabod, er bod disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn debygol o fod yn ddwyieithog, na chânt eu haddysgu'n ddwyieithog, torrwyd y chwe chategori i lawr i ddau i ddechrau: ysgolion dwyieithog (gan gynnwys Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg) ac ysgolion uniaith, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg. Hefyd dadansoddon ni rai ymatebion ymhellach, gan wahaniaethu rhwng tri chategori o ysgolion: ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog. Fodd bynnag, roedd rhaid inni fod yn ofalus iawn i beidio â phriodoli gormod o ddilysrwydd i'r canfyddiadau a gafwyd, ar y naill law oherwydd niferoedd bach yr ysgolion yn y categorïau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg, ac ar y llaw arall oherwydd bod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a ymatebodd yn tueddu i gynrychioli amgylchiadau economaidd-gymdeithasol mwy ffafriol (gweler isod).

### Bandio

Tan yn ddiweddar, roedd pob ysgol uwchradd yng Nghymru yn cael ei gosod mewn un o bum categori o fandiau (sydd bellach yn cael eu hadnabod fel y 'System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion') sy'n seiliedig ar ystod eclectig o ffactorau sy'n dynodi ansawdd.[44] Defnyddiodd yr ymchwilwyr ddata bandio a gyhoeddwyd yn 2013 i weld a oedd yr atebion i gwestiynau arbennig yn gysylltiedig â bandiau gwahanol. Fodd bynnag, pan dorrir yr ymatebion i'r arolwg i lawr fesul band, mae hyn yn rhoi niferoedd bach iawn mewn rhai achosion, felly nid yw'n bosibl dibynnu ar ddilysrwydd y canfyddiadau. Serch hynny, rydym wedi nodi yn y testun lle mae patrymau'n ymddangos.

### Statws economaidd-gymdeithasol

Gosodwyd pob ysgol a ymatebodd i un o bum categori, yn seiliedig ar nifer cyfartalog y disgyblion a oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ystod 2011-2013. Ysgolion cyfrwng Saesneg oedd pob un o'r ysgolion yn y categori mwyaf difreintiedig (y rhai a oedd â'r cyfrannau uchaf o ddisgyblion cymwys i gael prydau ysgol am ddim) ac ysgolion cyfrwng Saesneg oedd 23 o'r 25 yn yr ail gategori mwyaf difreintiedig. Unwaith eto, gall hyn esgor ar ddata camarweiniol ac mae canlyniadau'r dadansoddiad wedi'u defnyddio'n ofalus yn y testun.

[44] Ceir manylion bandio'r ysgolion uwchradd yn: **http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/schoolbanding/?skip=1&lang=cy**

# 3 Data arholiadau ysgol yng Nghymru

Mae'r ffigurau a ddangosir isod wedi'u cymryd o ystadegau'r Cyd-gyngor Cymwysterau am y niferoedd a safodd arholiadau, a gyhoeddir ym mis Awst bob blwyddyn. Maent yn cwmpasu'r holl niferoedd a safodd TGAU a Safon Uwch yng Nghymru ym mhob blwyddyn, gan gynnwys y rhai hynny sy'n dod o ddarparwyr addysg bellach, oedolion a gwirfoddol. Y ffigurau cynharaf sydd ar gael yw 2001 yn achos Safon Uwch a 2002 yn achos TGAU, ac mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer haf 2014.


## 3.1 | TGAU

Ar y cyfan, mae'r niferoedd sy'n sefyll arholiadau TGAU ITM wedi cwympo 42 y cant rhwng 2002 a 2014 – ond mae'r ffigurau cyffredinol yn datgelu gwahaniaeth rhwng yr ieithoedd. Mae Ffrangeg ac Almaeneg, yr ieithoedd tramor a addysgir helaethaf yn ysgolion Cymru yn draddodiadol, wedi cwympo 51 y cant a 57 y cant yn y drefn honno; tra mae'r ieithoedd a addysgir yn llai aml wedi gweld cynnydd bach o 12 y cant o safle isel. Cynyddodd y niferoedd a safodd Sbaeneg yn gyson tan 2011, gan oddiweddyd y niferoedd ar gyfer Almaeneg yn 2010. Fodd bynnag, syrthion nhw'n ôl yn 2012 ac yn 2014 mae'r niferoedd ar gyfer Sbaeneg yn is nag yr oeddynt yn 2009.

Yn y categori 'Ieithoedd eraill' mae o bosib 17 iaith dramor arall (gan gynnwys Gwyddeleg) a gynigir ar lefel TGAU ar hyn o bryd; fodd bynnag, nid yw'r Cyd-gyngor Cymwysterau'n gallu darparu manylion y rhain ar gyfer Cymru oherwydd bod y niferoedd yn fach iawn. Yn achos Tsieineeg, darparwyd ffigurau wedi'u cyfuno ar gyfer Gogledd Iwerddon a Chymru ar gyfer 2013 - cyfanswm o 51. Mae'n debygol fod llawer o'r niferoedd yn y categori 'Ieithoedd Eraill' yn dod o'r sectorau Addysg Bellach, oedolion neu wirfoddol oherwydd dengys canlyniadau'r arolwg hwn mai ychydig iawn o addysgu ieithoedd heblaw am Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg sy'n digwydd yn ysgolion Cymru.

Dylid gweld y gostyngiad yn y niferoedd sy'n sefyll arholiadau TGAU ITM yng nghyd-destun gostyngiad cyffredinol o wyth y cant ar draws pob pwnc dros y cyfnod o dan sylw. Fodd bynnag, gostyngodd cymhareb y niferoedd gyda'i gilydd a safodd Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg i'r niferoedd ar draws pob pwnc o bump y cant i dri y cant rhwng 2002 a 2014.

***Ffigur 1:*** *Niferoedd a safodd TGAU mewn Iaith Dramor Fodern yng Nghymru, 2002-2014*





| | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffrangeg | 10178 | 10100 | 9605 | 8997 | 8851 | 8343 | 7944 | 7303 | 7092 | 6102 | 5990 | 5911 | 5015 |
| Almaeneg | 2836 | 2706 | 2699 | 2467 | 2346 | 2144 | 2133 | 2025 | 1809 | 1433 | 1326 | 1266 | 1220 |
| Sbaeneg | 1119 | 1327 | 1411 | 1431 | 1544 | 1684 | 1630 | 1802 | 1831 | 1774 | 1535 | 1793 | 1702 |
| Eraill | 497 | 432 | 489 | 474 | 456 | 498 | 435 | 545 | 577 | 311 | 488 | 483 | 556 |

## 3.2 | Safon Uwch

Arhosodd y niferoedd a safodd Safon Uwch pynciau ITM yn sefydlog rhwng 2001 a 2006, ond ers hynny gwelwyd gostyngiad mawr yn y prif ieithoedd. Yn y cyfnod o ddeng mlynedd o 2005 i 2014, mae'r niferoedd ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg gyda'i gilydd wedi haneru, tra mae'r niferoedd ar gyfer 'Ieithoedd eraill' wedi dyblu. Mae cyfanswm y niferoedd a safodd arholiadau Safon Uwch ar draws pob pwnc wedi aros yn sefydlog yn ystod y cyfnod hwn o ddeng mlynedd (35,492 yn 2014), a golyga hyn fod niferoedd ITM yn gyfran o'r holl niferoedd wedi cwympo o bump y cant i dri y cant.

***Ffigur 2:*** *Niferoedd a safodd Safon Uwch mewn Iaith Dramor Fodern yng Nghymru, 2001-2014*




| | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffrangeg | 1029 | 978 | 1014 | 1041 | 1021 | 1055 | 987 | 937 | 866 | 711 | 641 | 612 | 473 | 468 |
| Almaeneg | 376 | 337 | 320 | 333 | 288 | 283 | 298 | 252 | 244 | 209 | 179 | 170 | 144 | 114 |
| Sbaeneg | 228 | 228 | 226 | 211 | 214 | 253 | 262 | 220 | 268 | 220 | 244 | 216 | 215 | 167 |
| Eraill | 47 | 83 | 120 | 149 | 110 | 151 | 133 | 160 | 143 | 172 | 191 | 232 | 196 | 221 |

Mae'r gostyngiadau mwyaf yn Ffrangeg ac yn Almaeneg, y ddwy iaith dramor a addysgir helaethaf yng Nghymru yn draddodiadol, gyda'r niferoedd yn cwympo 41 y cant a 54 y cant yn y drefn honno dros y cyfnod o ddeng mlynedd. Gwelodd Sbaeneg duedd fechan tuag i fyny o 2001 a goddiweddodd hi Almaeneg fel yr ail iaith dramor a astudir helaethaf ar Safon Uwch yn 2009. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diweddar mae Sbaeneg hefyd wedi gweld gostyngiad mewn niferoedd gyda chwymp arbennig o drwm o 22 y cant rhwng 2013 a 2014.

Mae'r dystiolaeth o'r arolwg hwn yn cadarnhau nad yw'r 'Ieithoedd Eraill' yn dod o ieithoedd a addysgir fel pynciau prif ffrwd yn ysgolion Cymru. Mae'n bosib eu bod yn dod o'r sector Addysg Bellach neu addysg oedolion, neu gan ddisgyblion sydd â mynediad i'r ieithoedd hynny yn eu cartrefi a'u cymunedau ac sy'n paratoi at arholiadau'r tu allan i'r prif ddiwrnod ysgol. Ar hyn o bryd cynigir

cyfanswm o 17 iaith arall ar Safon Uwch, ond nid yw'r Cyd-gyngor Cymwysterau'n darparu manylion penodol i Gymru ar y niferoedd ar gyfer gwahanol ieithoedd (heblaw am y ffaith na safodd neb arholiad mewn Gwyddeleg). Fodd bynnag, roedd y Cyd-gyngor Cymwysterau'n gallu cadarnhau bod 140 wedi sefyll Safon Uwch Tsieineeg yng Nghymru ac Iwerddon gyda'i gilydd yn 2013.

# 4 Y ddarpariaeth ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern yng Nghymru

Gan mai Cyfnod Allweddol 3 yw'r unig bwynt yn ystod addysg pobl ifanc yng Nghymru pan fydd astudio iaith dramor yn orfodol, mae data meintiol ac ansoddol o ystod eang o ysgolion ar draws y wlad yn rhoi tystiolaeth gyfoethog am helaethrwydd dysgu ieithoedd tramor a'r ymrwymiad iddo yn y cyfnod allweddol hwn, pa ieithoedd a gynigir a pha heriau sy'n wynebu athrawon.

Yng nghyd-destun y gostyngiad sydyn yn niferoedd y bobl ifanc yng Nghymru sy'n dewis astudio iaith dramor hyd at lefel TGAU, mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y cyfuniadau o ffactorau y gwelir eu bod yn cyfrannu i hyn. Edrychir ar farn athrawon am agweddau disgyblion tuag at ddysgu ieithoedd eraill ochr yn ochr â Chymraeg a Saesneg[45] yn ogystal â'r cysylltiad rhwng anfantais gymdeithasol a chyfranogi mewn dysgu ieithoedd tramor.

Rhoddir gwybodaeth ynghylch i ba raddau y defnyddir cymwysterau ieithoedd galwedigaethol ac effaith Bagloriaeth Cymru ar Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion uwchradd.

## 4.1 | Cyfnod Allweddol 3

**A yw pob disgybl, neu bron i bob disgybl, yn astudio iaith dramor fodern gydol Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7-9)?**
Nid yw cyfran fach o ysgolion (pump y cant) yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob disgybl astudio iaith dramor drwy gydol Cyfnod Allweddol 3. Dengys y sylwadau gan athrawon fod hyn yn digwydd pan fydd grwpiau gallu is neu anghenion arbennig yn dilyn cwricwlwm gwahanol:

> *'Mae'r grŵp gallu is yn dilyn cwricwlwm pwrpasol nad yw'n cynnwys ITM.'*

> *'Nid yw'r dosbarth anghenion arbennig ym Mlwyddyn 9 yn dysgu iaith dramor. Mae'r dosbarth hwn yn dilyn cwricwlwm Llwybrau CBAC ac nid yw'r ysgol yn dilyn opsiwn ieithoedd tramor o fewn yr opsiynau hyn.'*

Mewn un achos, mae'r ysgol wedi lleihau Cyfnod Allweddol 3 i ddwy flynedd, ac er bod pob disgybl yn astudio Ffrangeg ym Mlynyddoedd 7 ac 8, nid yw hynny'n wir ym Mlwyddyn 9.

Fodd bynnag, mae cyfran uwch o lawer, 29 y cant, yn dweud bod disgyblion gallu is unigol yn cael eu datgymhwyso yng Nghyfnod Allweddol 3, er enghraifft:

> *'Yn y pen draw mae o leiaf 10 y cant o'r flwyddyn ysgol yn cael eu datgymhwyso neu nid ydynt yn cymryd Ffrangeg gan fod y rheolwyr yn penderfynu'n aml mai dyma'r wers y dylen nhw "roi'r gorau iddi" er mwyn cael Saesneg neu fathemateg ychwanegol.'*


> *'Mae 20 y cant yn gwneud sgiliau swyddogaethol – llond llaw yn unig o wersi [ieithoedd] y maen nhw'n eu hastudio ym Mlynyddoedd 7 a 8. Ym Mlwyddyn 9, maen nhw'n cael eu "hintegreiddio o'r newydd" i mewn i'r brif ffrwd Ffrangeg er gwaethaf y bwlch o ran sgiliau a heb gymorth.'*

Dadansoddwyd yr ymateb i'r cwestiwn hwn ymhellach yn ôl statws economaidd-gymdeithasol yr ysgol (yn seiliedig ar gyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) ond nid oes tystiolaeth am berthynas rhwng y cyfle i astudio iaith dramor gydol Cyfnod Allweddol 3 a statws economaidd-gymdeithasol yr ysgol.

[45] Bydd canfyddiadau o arolwg o agweddau disgyblion tuag at ddysgu ieithoedd sydd hefyd wedi cael ei gomisiynu gan y British Council, yn ategu hyn maes o law.

**Pa newidiadau y mae ysgolion wedi'u gwneud yn ddiweddar i ddarpariaeth ITM yng Nghyfnod Allweddol 3?**

***Ffigur 3:*** *Newidiadau diweddar i'r ddarpariaeth Ieithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 3*




Darlun o athreuliad yw'r darlun cyffredinol ar gyfer ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 3. Y newid mwyaf cyffredin a adroddir yw lleihau amser gwersi ar gyfer ITM (43 y cant o'r ysgolion). Mae'r canfyddiad hwn yn peri pryder o gofio bod Estyn wedi argymell y dylai ysgolion amserlennu ITM am o leiaf ddwy awr yr wythnos er mwyn i ddisgyblion allu gwneud cynnydd da.[46] Mae'r ysgolion yn adrodd:

> *'Cafodd ein dyraniad ei dorri o bum awr y pythefnos i bedair awr y pythefnos bedair blynedd yn ôl, ac yna o bedair awr y pythefnos i dair awr y pythefnos eleni (Blynyddoedd 7 a 8). Mae'r ddwy "set uchaf" ym Mlwyddyn 9 yn cael pedair awr y pythefnos, a'r llai galluog yn cael dwy awr y pythefnos o Flynyddoedd 7 i 9.'*

> *'Mae'r oriau addysgu wedi'u lleihau o bedair awr i dair awr y pythefnos fel bod mwy o amser addysgu ar gyfer y FfLlRh.'*

[46] Estyn (2009)

Gyda'r pwyslais cynyddol ar lythrennedd a rhifedd, mae ymhell dros chwarter yr ysgolion bellach yn atal neu'n esgusodi disgyblion gallu is rhag dysgu iaith dramor er mwyn canolbwyntio ar bynciau craidd fel Saesneg a mathemateg.

Mae cynifer â 21 y cant o'r ysgolion wedi rhoi'r gorau i addysgu mwy nag un iaith yn ystod y tair blynedd diwethaf, eto o ganlyniad i fwy o ffocws ar lythrennedd neu am resymau ariannol:

> *'Roeddem yn arfer addysgu Almaeneg a Ffrangeg, ond oherwydd cyfyngiadau ariannol cafodd staffio ei leihau a daethpwyd ag Almaeneg i ben. Roedd y penderfyniad i ddatgymhwyso nifer sylweddol o ddisgyblion o astudio Ffrangeg hefyd yn benderfyniad wedi'i lywio'n ariannol yn rhannol, gan nad oedd gan yr ysgol ddigon o staff a allai addysgu Ffrangeg.'*

> *'Rydym wedi colli amser ar draws yr ieithoedd (Ffrangeg, 2il Iaith Dramor Fodern a Chymraeg) er mwyn cynorthwyo llythrennedd. Rydym wedi dadlau bod gennym ffocws llythrennedd cryf iawn yn ein gwersi ond eto collon ni amser gwersi wythnosol.'*

Fodd bynnag, mae angen cydbwyso'r dystiolaeth am leihad yn yr hyn a gynigir yn erbyn y 15 y cant o'r ysgolion sy'n adrodd iddyn nhw gyflwyno un neu ragor o ieithoedd newydd.

Ychydig iawn (12 y cant) o'r ysgolion sy'n adrodd iddynt wneud newidiadau i'r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 3 er mwyn annog niferoedd mwy i barhau i astudio ITM i mewn i Gyfnod Allweddol 4, ond mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos y camau y mae ysgolion o'r fath yn eu cymryd i annog disgyblion i barhau gydag iaith  dramor hyd at TGAU:

> *'Rydym wedi addasu'r dulliau addysgu ym Mlwyddyn 9 er mwyn denu rhagor o ddisgyblion i gymryd TGAU Ffrangeg ac i herio'r disgyblion mwy galluog.'*

> *'Nod gwneud i ddisgyblion ddewis yn gynnar rhwng Ffrangeg ac Almaeneg yw sicrhau eu bod yn parhau gyda'r iaith y maen nhw wedi ei dewis, yn hytrach na'u bod yn cael eu gorlwytho, yn methu cwmpasu digon o dopigau ac, felly, yn annhebygol o barhau gyda'r naill iaith na'r llall i mewn i Gyfnod Allweddol 4'.*


Mae nifer bach o'r ysgolion (tri y cant) wedi cyflwyno achredu ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 3, ond nid yw mwyafrif helaeth yr ysgolion yn cynnig unrhyw achredu ar gyfer ieithoedd tramor yn y cyfnod allweddol hwn (gweler Tabl 2, tudalen 33).

Dadansoddwyd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn hefyd fesul band, yn ôl System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion 2013 (gweler Pennod 2). Mae'r niferoedd ym mhob achos yn fach iawn, felly nid yw'n bosibl dod i gasgliadau sy'n ystadegol ddilys. Fodd bynnag, mae arwyddion fod ysgolion ym mandiau 4 a 5 – h.y. y rhai sy'n perfformio waethaf – yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi gorffen addysgu un neu ragor o ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 3 (33 y cant o'r rhai ym mand 4, 38 y cant o'r rhai ym mand 5, o'i gymharu â 21 y cant yn gyffredinol). Ar y llaw arall, mae'r rhai sydd yn y band uchaf o ran perfformiad cyffredinol yn llawer mwy tebygol o fod wedi cyflwyno iaith dramor – 31 y cant o'i gymharu â 15 y cant ar y cyfan.

O'r data sydd ar gael, nid yw'r duedd i ddatgymhwyso disgyblion gallu is neu i leihau amser y gwersi ar gyfer ITM yn ymddangos fel petai'n gysylltiedig â statws ysgolion o ran bandio.

**Ydy ysgolion yn derbyn niferoedd arwyddocaol o ddisgyblion sydd wedi astudio iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2?**
Mae union hanner yr ysgolion a ymatebodd yn derbyn disgyblion sydd eisoes wedi astudio iaith dramor yn yr ysgol gynradd. Fodd bynnag, yn wyth y cant o'r achosion yn unig y mae hyn yn cyfeirio at fwyafrif y disgyblion sy'n ymuno â Blwyddyn 7.

***Ffigur 4:*** *Pa un a yw ysgolion yn derbyn disgyblion sydd eisoes wedi astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 2*




Lle mae ysgolion yn adrodd eu bod yn derbyn disgyblion ym Mlwyddyn 7 sydd wedi astudio iaith heblaw am Gymraeg neu Saesneg, mae nifer yn nodi bod gwybodaeth disgyblion wedi'i chyfyngu i ychydig eiriau neu ymadroddion a ddysgwyd mewn sesiynau blasu neu glybiau, er enghraifft:

> *'Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi sylwi ar gyfran fwy o fyfyrwyr sydd ag "ychydig" o wybodaeth o Ffrangeg. Yn anffodus, mae'n aml yn anghyson iawn ymysg y myfyrwyr ac yn gyfyngedig iawn.'*

> *'Mae dysgu ieithoedd ar lefel gynradd yn debycach i sesiynau blasu na gwersi go iawn – ar y gorau, ychydig o eirfa y mae'r disgyblion yn ei dysgu ac yn ei chofio – dydyn nhw byth yn gallu trin yr iaith mewn unrhyw ffordd.'*

Mae rhai ymatebwyr yn nodi bod nifer y disgyblion sydd wedi dysgu iaith heblaw am Saesneg neu Gymraeg yn yr ysgol gynradd wedi disgyn mewn gwirionedd yn y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft:

> *'Ddim yn ddiweddar – yn y gorffennol roedd rhai wedi gwneud sesiynau blasu. Roedd gwaith rai blynyddoedd yn ôl gyda'r Bont Ieithoedd ond mae hyn wedi syrthio wrth ymyl y ffordd ers tro.'*

> *'Ar ôl cynllun peilot ITM yn y cynradd gan CILT Cymru byddai'r rhan fwyaf yn dod i mewn i Flwyddyn 7 wedi astudio Ffrangeg. Erbyn hyn mae dirywiad gan fod rhai o'r staff cynradd wedi ymddeol neu heb fod â digon o hyder i barhau i addysgu'r iaith.'*

*'Roedden ni'n arfer bod yn rhan o'r prosiect peilot gan CILT i addysgu Ffrangeg mewn ysgolion cynradd. Gweithiodd yn dda am 7 mlynedd ond gorffennodd pan ddaeth yr arian i ben. Fel arall roedd y cynllun yn llwyddiannus iawn.'*

Mae'r ymatebwyr yn adrodd bod mwyafrif y disgyblion sydd â gwybodaeth am iaith heblaw am Gymraeg neu Saesneg naill ai wedi gwneud Cyfnod Allweddol 2 yn Lloegr neu'n dod o wlad arall – sonnir yn benodol am Bortiwgal a Gwlad Pwyl.

*'Mae'r unig ddisgyblion sydd wedi cael unrhyw brofiad ITM ystyrlon yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dod o Loegr.'*

*'Nifer bach iawn o ddisgyblion sydd wedi cael profiad o unrhyw ITM yn y cynradd. Os felly, mae'n sylfaenol iawn. Yr eithriadau yw disgyblion sy'n dod o ysgolion cynradd yn Lloegr neu o dramor.'*

Llond llaw yn unig o ysgolion sy'n adrodd eu bod wrthi'n ymwneud ag addysgu ITM mewn ysgolion cynradd, er enghraifft:

*'Am y tro cyntaf ers mis Medi, rydym wedi dechrau cyflwyno ITM yn rhan o raglen bontio Blwyddyn 6. Byddwn yn gwerthuso'r budd ym mis Medi 2015.'*

*'Mae ein staff yn addysgu gwers o Ffrangeg yr wythnos ym mhob un o'n hysgolion cynradd.'*

*'Mae aelodau'r adran Ffrangeg yn addysgu unwaith y pythefnos ym mhob un o'n hysgolion clwstwr ac maen nhw wedi cynhyrchu deunyddiau ar CD er mwyn cael cysondeb. Gofynnir i'n cydweithwyr cynradd gyflwyno Ffrangeg yn ystod yr wythnos yn y cyfamser, er bod y mewnbwn hwn yn amrywio'n ymarferol ar draws y clwstwr.'*


## 4.2 | Cyfnod Allweddol 4

**Beth yw statws Ieithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 4?**

Dwy ysgol yn unig yn yr arolwg sy'n gwneud i Ieithoedd Tramor Modern fod yn orfodol i bob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn 93 o'r ysgolion mae'n ddewisol i bob disgybl, a dywed saith y cant o'r ysgolion mai i rai disgyblion yn unig y mae'n ddewis.

Fodd bynnag, pan ofynnir a yw pob myfyriwr sydd eisiau astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cael gwneud hynny, 61 y cant yn unig sy'n dweud mai felly mae hi. Yn 13 y cant o'r ysgolion, nid yw myfyrwyr sy'n dilyn llwybrau penodol yn cael astudio ieithoedd tramor ac yn 10 o'r ysgolion, nid yw myfyrwyr y bernir nad ydyn nhw'n gallu cyflawni TGAU yn cael astudio iaith dramor.

***Ffigur 5:*** *Pa un a yw unrhyw fyfyrwyr yn cael eu hatal rhag astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4*




Mae cyfyngiadau ar y disgyblion sy'n astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4 yn tueddu i fod yn fwy cyffredin mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (44 y cant) nag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (26 y cant) neu ddwyieithog (33 y cant), er y golyga'r niferoedd bach – a chysylltiad posibl â ffactorau economaidd-gymdeithasol (gweler Pennod 2) – fod rhaid dehongli'r canfyddiad hwn yn ofalus.

Mae sylwadau gan athrawon yn dangos bod y cyfyngiadau ar astudio iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 4 yn effeithio ar ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), y rhai y mae eu llythrennedd yn wan, neu'r rhai na fu'n astudio'r iaith yng Nghyfnod Allweddol 3:

*'Mae nifer bach o ddisgyblion AAA yn cael eu datgymhwyso o ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 3, ac felly ni allant ddewis y cwrs TGAU yng Nghyfnod Allweddol 4. Awr yn unig o Sbaeneg y pythefnos y mae disgyblion AAA eraill yn ei chael yng Nghyfnod Allweddol 3, ac felly maen nhw hefyd yn cael eu hannog i beidio â chymryd y pwnc i safon TGAU.'*

*'Mae disgyblion yn cael eu hannog i ddilyn y llwybr a awgrymir ond os ydyn nhw wir eisiau astudio iaith ac mae'r athro'n teimlo y bydd y disgybl yn iawn, yna does dim problem. Oherwydd y pwysau gyda chanlyniadau ac ati, yn y dyfodol dim ond disgyblion sy'n gallu cael C ac uwch y byddwn ni'n eu dewis. Nid dyma fu ein polisi erioed ond rydyn ni o dan bwysau i wella'r canlyniadau.'*

*'Yn dechnegol mae'r cwrs (TGAU Ffrangeg) yn cael ei gynnig i bob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion weithiau'n cael eu hannog i beidio â dilyn y cwrs os bernir bod eu llythrennedd yn rhy isel neu pe byddai dewisiadau eraill yn arwain at raddau uwch i'r disgyblion hynny.'*

*'Nid oes gallu gan ddisgyblion AAA i astudio yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae disgyblion nad astudion nhw Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cael eu hatal rhag ei dewis. Nid yw colofnau dewisiadau'r ysgol bob amser yn hybu astudio ITM gan fod pynciau'n aml sy'n cystadlu.'*

Un ysgol ddwyieithog yn unig yn y sampl ymchwil sy'n atal disgyblion sy'n dewis llwybrau arbennig rhag astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4, tra mae cyfran lawer uwch o ysgolion uniaith yn dweud eu bod yn gosod cyfyngiadau yn eu lle mewn amgylchiadau o'r fath. Nid oes gwahaniaeth rhwng ysgolion uniaith a dwyieithog o ran yr ymatebion eraill i'r cwestiwn hwn.

**Newidiadau yn niferoedd y disgyblion sy'n astudio Ieithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 4**

Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl o ystyried y niferoedd is sy'n sefyll TGAU mewn ITM, mae cyfran uchel o ysgolion (47 y cant) wedi gweld gostyngiadau cyffredinol yn y niferoedd ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 4. Mewn mwy nag un o bob pum ysgol mae'r gostyngiad hwn wedi effeithio ar dros 10 y cant o'r disgyblion.

***Tabl 1:*** *Newidiadau a welwyd yn niferoedd y disgyblion ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 4 dros y tair blynedd diwethaf*

| Cynnydd - o 10% neu ragor | Cynnydd - o lai na 10% | Dim newid arwyddocaol | Gostyngiad - o lai na 10% | Gostyngiad - o dros 10% |
|---|---|---|---|---|
| 15% | 7.5% | 30% | 26% | 21% |

Mae ysgolion band 1 yn llai tebygol nag ysgolion eraill o fod wedi gweld cynnydd ac, ynghyd â'r rhai ym mand 3, yn fwyaf tebygol o fod wedi gweld gostyngiad, er bod yr union niferoedd yn rhy isel i wneud i hwn fod yn ganfyddiad sy'n ystadegol ddilys. Nid oes gwahaniaeth rhwng ysgolion uniaith a dwyieithog o ran y newidiadau a welson nhw yn niferoedd y disgyblion ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 4 dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r sylwadau gan athrawon sy'n ymateb i arolwg Tueddiadau Ieithoedd yn rhoi mewnwelediad i rai o'r rhesymau dros y gostyngiadau yn y niferoedd sy'n astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4:

> *'Mae'r disgyblion wedi nodi'r rhesymau canlynol: mae pynciau eraill yn fwy defnyddiol ar gyfer yr yrfa y maen nhw wedi'i dewis; gormod o ddysgu a gormod o brofion; pedwar pwnc dewisol yn unig y gallan nhw eu dewis ac mae pynciau y maen nhw'n eu mwynhau'n fwy: Celf/Addysg Gorfforol/Cerddoriaeth/Astudiaethau'r cyfryngau.'*

> *'Mae'r niferoedd yn ein hysgolion ni wastad wedi bod braidd yn isel. Mae strwythur y cwricwlwm newydd (dwy flynedd Cyfnod Allweddol 3, blwyddyn TGAU, un flwyddyn bwlch dysgu) yn ei gwneud hi'n anodd i ddisgyblion eisiau dewis iaith.'*

> *'Y prif reswm yw cyflwyno Cymraeg fel TGAU gorfodol i bob disgybl. Nid yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion eisiau astudio dwy iaith ac ni allant weld manteision neu wahaniaeth iaith dramor. Tri opsiwn dewis sydd gan ddisgyblion yn yr ysgol ac mae'n rhaid i'r rhain gael eu dewis o byllau. Yn aml iawn mae ieithoedd yn yr un pwll â dewisiadau poblogaidd, academaidd eraill felly caiff disgyblion eu gorfodi i ddewis. Er enghraifft, eleni newidiodd chwe disgybl o Ffrangeg i wyddoniaeth driphlyg pan sylweddolon nhw na allent astudio'r ddau oherwydd dewisiadau'r pyllau.'*

I'r gwrthwyneb, mae 23 y cant o'r ysgolion wedi gweld niferoedd yn codi, ac yn 15 y cant o'r ysgolion mae'r cynnydd dros 10 y cant. Dyma un enghraifft o ysgol sydd wedi gweld cynnydd:

> *'Rydym yn gweld bod mwy o ddisgyblion yn dewis ieithoedd. Rydym wedi newid y personél i dîm iau ac rydym wedi cael Pennaeth Adran newydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydym wedi gweithio'n galed i godi proffil y pwnc gydag adnoddau addysgu cryf a defnyddio TG a chreu bwrlwm hwyliog am yr adran. Rydyn ni'n cynnig tripiau – dechreuon ni drip Blwyddyn 8 ddwy flynedd yn ôl a bellach mae'r nifer mwyaf erioed gyda ni yn astudio ym Mlwyddyn 10'.*

Fodd bynnag, nid oes enghreifftiau digon helaeth o niferoedd y rhai sy'n astudio ITM ar gynnydd i wneud iawn am y dystiolaeth o ddirywiad sydd i'w gweld amlaf.

**Data ar gyfer ieithoedd penodol**
Mae gostyngiadau yn y niferoedd ar gyfer Ffrangeg ac Almaeneg yng Nghyfnod Allweddol 4 yn digwydd mewn nifer mawr o ysgolion. Mae bron i hanner (47 y cant) naill ai wedi gweld niferoedd is ar gyfer Almaeneg, neu wedi gorffen ei haddysgu'n gyfan gwbl. Ar gyfer Ffrangeg mae'r gyfran ychydig yn is (40 y cant) ond mae'n dal i fod yn arwyddocaol iawn.


Mae sefyllfa Sbaeneg yn fwy cyfnewidiol. Mae chwe ysgol wedi gorffen addysgu Sbaeneg ond mae chwech arall wedi'i chyflwyno fel iaith newydd. Er bod tua chwarter (26 y cant) o'r ysgolion wedi gweld gostyngiadau yn y niferoedd ar gyfer Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 4, mae cyfran uwch (36 y cant) wedi gweld cynnydd.

O ran ieithoedd eraill, mae un ysgol wedi gorffen addysgu Eidaleg yng Nghyfnod Allweddol 4 ac mae un arall wedi gweld gostyngiad yn y niferoedd ar gyfer Lladin. Mae tair ysgol yn adrodd iddynt gyflwyno Tsieineeg fel pwnc newydd, fel arfer gyda chymorth Sefydliad Confucius.

## 4.3 | Ôl-16

**Newidiadau yn niferoedd y disgyblion sy'n astudio Ieithoedd Tramor Modern ôl-16**
Mae gan bron i dri chwarter yr ysgolion sy'n ymateb (71 y cant) ddisgyblion ôl-16 ac efallai mai eu hymatebion nhw o ran y niferoedd sy'n astudio Ieithoedd Tramor Modern ôl-16 yw'r achos pryder mwyaf sy'n codi o'r arolwg hwn. Mae cynifer â 64 y cant o'r ysgolion wedi gweld y niferoedd yn gostwng, nid yw 28 y cant wedi gweld unrhyw newid arwyddocaol yn y niferoedd dros y tair blynedd diwethaf a saith ysgol yn unig sy'n adrodd bod cynnydd yn y niferoedd ar gyfer ieithoedd ôl-16. Effeithiwyd ar ysgolion dwyieithog ac uniaith fel ei gilydd.

***Ffigur 6:*** *Ysgolion sy'n adrodd bod cynnydd neu ostyngiad yn y niferoedd ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern ôl-16 dros y tair blynedd diwethaf*




Mewn hinsawdd ariannol fwyfwy anodd, mae athrawon yn adrodd bod pwysau ar hyfywedd pynciau ITM ôl-16:

> *'Mae niferoedd y dosbarthiadau wedi lleihau ac ar hyn o bryd does dim dosbarth a'r pryder yw, gyda niferoedd is yn dewis gwneud TGAU, ei bod hi'n annhebygol y bydd digon o nifer i redeg dosbarth chweched dosbarth yn y dyfodol.'*

> *'Mae'r ddwy flynedd diwethaf wedi gweld gostyngiad. Yn swyddogol nid yw ieithoedd tramor ar gael eleni oherwydd y niferoedd. Mae'r Pennaeth Adran yn addysgu dosbarth bach "oddi ar yr amserlen" fel y gallant ddysgu iaith yn ôl eu dymuniad heb orfod newid ysgolion. Mae ieithoedd wedi bod yn ddosbarthiadau bach yn yr ysgol hon erioed. Mae'n debygol na fydd gennym ddosbarth yn y chweched eto gan ei bod hi'n hynod annhebygol y bydd gennym fyth y nifer "cywir" o ddisgyblion. O garfan TGAU o 20-30 disgybl, sydd tua 1/4 i 1/3 o'n blwyddyn ysgol, byddai angen 12 disgybl arnom i ddewis iaith ar Safon Uwch. Mae'r system yn croeshoelio ysgolion bach a dewis disgyblion.'*

> *'Dim newid yn y niferoedd sy'n astudio, dim ond newid o ran a allwn ni redeg y dosbarth ai peidio.'*

Fel gyda'r niferoedd yng Nghyfnod Allweddol 4, Almaeneg a Ffrangeg sydd wedi'u taro waethaf gan y gostyngiadau ôl-16, er bod Sbaeneg wedi'i heffeithio'n wael hefyd. Mae traean yr ysgolion a oedd yn cynnig Almaeneg ôl-16 (32 y cant) bellach wedi gorffen ei haddysgu ac mae mwy na thraean arall (39 y cant) wedi gweld niferoedd yn disgyn. Mae deg y cant o'r ysgolion wedi dod â'r ddarpariaeth Ffrangeg ôl-16 i ben yn llwyr, yn ogystal â bron i hanner (48 y cant) sydd wedi gweld niferoedd yn disgyn. Mae deg y cant o'r ysgolion a oedd yn cynnig Sbaeneg ôl-16 wedi gorffen gwneud hynny,

ac mae traean arall (37 y cant) wedi gweld niferoedd yn disgyn. Mae dwy ysgol arall yn adrodd iddynt ddod ag Eidaleg ôl-16 i ben. Mae'r sylwadau gan ymatebwyr yn tynnu sylw at sefyllfa fregus Almaeneg yn enwedig:

> *'Mae Almaeneg wedi dod i ben – o ganlyniad, mae llai o fyfyrwyr yn dewis Almaeneg yng Nghyfnod Allweddol 4 oherwydd eu bod yn gwybod y bydd rhaid iddynt fynychu ein hysgol bartner.'*

> *'Mae Sbaeneg yn ffynnu fel dewis TGAU ac o ganlyniad mae'r niferoedd yn iach iawn. Mae'r niferoedd sy'n astudio Ffrangeg yn sefydlog ond effeithiwyd arnynt gan Sbaeneg ac felly mae'r niferoedd wedi disgyn. Almaeneg yw'r pwnc lleiaf poblogaidd ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ei chael hi'n iaith anodd. Mae'r niferoedd wedi gostwng, yn enwedig ers cyflwyno Sbaeneg.'*

Er mwyn ceisio datrys y sefyllfa hon a pharhau i gynnig y nifer helaethaf o ddewisiadau yn Safon Uwch i'r myfyrwyr, mae nifer o ysgolion bellach yn gweithio mewn consortia ond yn aml mae'n rhaid i'r disgyblion deithio'n bell ar gyfer eu dosbarthiadau ac maent yn aml yn gyndyn o fynychu ysgol arall.

**Achredu ar draws y cyfnodau allweddol**
TGAU ac UG/Safon Uwch yw'r dewisiadau achredu a ffefrir o hyd ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 yn y drefn honno. Er gwaethaf argymhellion gan Estyn y dylai Llywodraeth Cymru weithio i gynnwys ieithoedd tramor mewn cyrsiau galwedigaethol,[47] dengys y dystiolaeth fod y niferoedd sy'n gwneud hynny'n dal i fod yn eithaf isel. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae tua 17 ysgol (sy'n cynrychioli 13 y cant o'r ymatebwyr) yn cynnig NVQ mewn ieithoedd busnes ac mae naw (saith y cant) yn cynnig modiwlau ieithoedd tramor Bagloriaeth Cymru.
Ac eithrio'r rhain, un ysgol yn unig ym mhob achos sy'n cynnig y canlynol:

- Tystysgrif lefel Mynediad
- FCSE
- IGCSE
- Y Fagloriaeth Ryngwladol
- Unedau ieithoedd FfCCh

Mae dros draean yr ysgolion sydd â darpariaeth ôl-16 yn cynnig modiwlau ITM o fewn Bagloriaeth Cymru.

[47] Estyn (2009)

***Tabl 2:*** *Niferoedd yr ysgolion a ymatebodd sy'n cynnig gwahanol ffurfiau ar achredu ym mhob cyfnod allweddol*

| | Cyfnod Allweddol 3 (n=132) | Cyfnod Allweddol 4 (n=132) | Ôl-16 (n=95) |
|---|---|---|---|
| **TGAU** | 6 | 129 | 2 |
| **IGCSE** | 0 | 1 | 0 |
| **NVQ ieithoedd busnes** | 1 | 17 | 1 |
| **UG** | 1 | 3 | 76 |
| **Safon Uwch** | 1 | 3 | 79 |
| **Bagloriaeth Cymru** (modiwlau ieithoedd tramor) | 1 | 9 | 39 |
| **Unedau ieithoedd FfCCh** | 1 | 1 | 3 |
| **Eraill** | 3 | 0 | 0 |

Mae nifer o ymatebwyr yn poeni y bydd Bagloriaeth Cymru, sy'n grwpio pob pwnc yn dri 'phwll' yn cael effaith andwyol eto ar y niferoedd sy'n astudio ITM:

> *'Mae nifer y blociau dewisiadau'n mynd i gael ei leihau i dri yng Nghyfnod Allweddol 4 wrth inni weithredu Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4. Rydym yn ofni y gall hyn wneud i fywyd fod hyn yn oed yn fwy anodd.'*

> *'Mae llai o ddewis i ddisgyblion ers cyflwyno'r Fagloriaeth. Yng Nghyfnod Allweddol 4, tair colofn yn unig sydd ar gael iddyn nhw nawr.'*

> *'Gwnaeth y Flwyddyn 9 bresennol eu dewisiadau ar ddiwedd Blwyddyn 8 ond gan y bydd Bagloriaeth Cymru yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 4, tri phwnc yn unig y caiff ein myfyrwyr eu dewis ac mae hyn wedi effeithio'n fawr arnom.'*

Mae sylwadau'r athrawon yn amlygu'r canfyddiad bod arholiadau TGAU a Safon Uwch mewn ITM yn anodd o'u cymharu â phynciau eraill:

> *'Mae canfyddiad fod y pwnc yn rhy anodd – mae'r mynediad i raddau TGAU uchel yn ymddangos yn anos yn Ffrangeg nag yn Gymraeg er enghraifft.'*

> *'Mae myfyrwyr yn gweld bod y maes llafur [Safon Uwch] yn rhy heriol a'r tu hwnt i'w cylch diddordebau. Mae'r disgwyliadau gan yr arholwyr mor uchel. Nid oes cymhariaeth rhwng pynciau eraill ar y lefel hon.'*

> *'Pwysigrwydd pynciau gwyddonol a mathemategol. Y ffaith fod disgyblion yn ystyried bod iaith dramor yn anodd yng Nghyfnod Allweddol 5. Canlyniadau anghyson o fewn unedau arholi allanol yng Nghymru.'*

Amrywiol yw'r effaith y mae cyflwyno'r NVQ mewn ieithoedd busnes fel dewis wedi ei chael ar y niferoedd sy'n astudio ITM:

> *'Mae ychwanegu NVQ ieithoedd busnes wedi bod yn boblogaidd iawn ac wedi ein helpu ni i gadw'r myfyrwyr set isaf i mewn i Gyfnod Allweddol 4. Mae'r niferoedd sy'n astudio'n 58 y cant eleni sy'n foddhaol iawn.'*

> *'Cynnydd oherwydd NVQ Ffrangeg Busnes fel dewis cwrs byr ond mae niferoedd y myfyrwyr TGAU wedi cwympo.'*


## 4.4 | Yr ieithoedd tramor a addysgir

Y darlun cyffredinol yw darpariaeth Ffrangeg yn bennaf, a phrin yw'r amrywiaeth. Addysgir Almaeneg yn oddeutu chwarter yr ysgolion a Sbaeneg yn llai na'u hanner nhw. Nid yw unrhyw ysgolion yn cynnig Arabeg, Rwsieg, Wrdw neu Hen Roeg a nifer bach iawn yn unig sy'n cynnig ieithoedd a addysgir yn llai cyffredin fel Tsieineeg, Eidaleg neu Ladin.

Mae'r dystiolaeth ansoddol o sylwadau athrawon yn dangos bod yr ieithoedd a addysgir yn llai cyffredin yn ogystal â Sbaeneg, Almaeneg ac, weithiau, Ffrangeg, yn cael eu cynnig o fewn amser y cwricwlwm ond hefyd drwy ddosbarthiadau a chlybiau sy'n cael eu cynnig drwy drefniadau allgyrsiol.

**Yr ieithoedd tramor a addysgir yng Nghyfnod Allweddol 3**
Er bod mwyafrif helaeth ysgolion uwchradd Cymru yn addysgu Ffrangeg yng Nghyfnod Allweddol 3, ychydig yn llai na thraean (31 y cant) sy'n cynnig Sbaeneg a chyfran hyd yn oed yn llai (27 y cant) sy'n cynnig Almaeneg. Mae pedair ysgol yn cynnig Tsieineeg yng Nghyfnod Allweddol 3, mae un yn cynnig Lladin ac un yn cynnig Eidaleg, fel arall mae ieithoedd a addysgir yn llai cyffredin yn tueddu i gael eu cynnig yn allgyrsiol.

***Ffigur 7:*** *Canran yr ysgolion sy'n addysgu Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 3**





*Gellid rhoi sawl ymateb

**Yr ieithoedd tramor a addysgir yng Nghyfnod Allweddol 4**

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r darlun yn debyg iawn i'r un yng Nghyfnod Allweddol 3, gyda mwyafrif yr ysgolion yn addysgu Ffrangeg a chyfrannau llai'n cynnig Almaeneg a Sbaeneg. Fodd bynnag, mae mwy o ysgolion yn cynnig Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 4 nag sy'n gwneud yng Nghyfnod Allweddol 3, ac mae ychydig yn llai o ysgolion yn cynnig Almaeneg yng Nghyfnod Allweddol 4 nag sy'n gwneud yng Nghyfnod Allweddol 3.

***Ffigur 8:*** *Canran yr ysgolion sy'n addysgu Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 4**





*Gellid rhoi sawl ymateb

Yn ogystal â Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg, mae pedair ysgol yn cynnig Eidaleg yng Nghyfnod Allweddol 4, mae pedair yn cynnig Tsieineeg a dwy'n cynnig Lladin.

### Ieithoedd tramor a addysgir ôl-16

***Ffigur 9:*** *Ysgolion sydd â darpariaeth ôl-16 yn addysgu Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu ddim un iaith**




*Gellid rhoi sawl ymateb

O'r ysgolion a ymatebodd sydd â darpariaeth ôl-16, mae tua 80 y cant yn cynnig Ffrangeg, mae traean yn cynnig Sbaeneg ac mae 22 y cant yn cynnig Almaeneg. Nid yw cynifer â 16 y cant yn cynnig unrhyw gyfle i astudio iaith dramor ar y lefel hon.

Mae tair ysgol yn cynnig Tsieineeg ôl-16, dwy'n cynnig Eidaleg ac un yn cynnig Japaneg. Nid oes unrhyw ysgol yn cynnig Lladin ar y lefel hon.

### Ieithoedd tramor a addysgir y tu allan i'r cwricwlwm

Mae ychydig dros draean yr ysgolion (39 y cant) yn cynnig darpariaeth allgyrsiol mewn ieithoedd tramor, a Sbaeneg, Tsieineeg ac Eidaleg yw'r ieithoedd a gynigir amlaf fel hyn.

***Tabl 3:*** *Nifer yr ysgolion sy'n cynnig darpariaeth allgyrsiol mewn ieithoedd tramor gwahanol*

| | |
|---|---|
| Arabeg | 3 |
| Ffrangeg | 9 |
| Almaeneg | 9 |
| Eidaleg | 10 |
| Japaneg | 1 |
| Tsieineeg | 15 |
| Rwsieg | 5 |
| Sbaeneg | 25 |
| Wrdw | 2 |
| Lladin | 9 |

Hefyd mae tystiolaeth ansoddol fod Bengaleg ac Iseldireg yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau allgyrsiol. Mae'r sylwadau canlynol gan athrawon a gymerodd ran yn yr arolwg yn dangos rhai o'r trefniadau allgyrsiol sydd yn eu lle i alluogi disgyblion i ddysgu amrywiaeth o ieithoedd:

> *'Rydym yn trafod â Sefydliad Confucius ym Mangor er mwyn cynnig clybiau ar ôl yr ysgol mewn Tsieineeg Mandarin. Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y byddwn yn rhedeg dwy sesiwn, un i Gyfnod Allweddol 3 ac un i Gyfnodau Allweddol 4 a 5. Rydym yn rhagweld y bydd sesiynau Cyfnod Allweddol 3 yn ddiwylliannol iawn yn hytrach na dysgu iaith yn unig.'*

> *'Cynigir ITM allgyrsiol i ddisgyblion sydd eisiau astudio'r iaith ar safon TGAU ond sy'n gweld bod ganddynt wrthdaro â phynciau eraill yn y grwpiau dewisiadau. Eleni am y tro cyntaf dysgir ITM ar ôl yr ysgol yn unig, i bedwar disgybl ym Mlwyddyn 10. Mae hyn oherwydd bod rhy ychydig wedi'u dewis yn y grwpiau dewisiadau. Ystyriodd (ac yn wir dechreuodd) nifer bach iawn o ddisgyblion eraill y dosbarth ar ôl yr ysgol ond gwelon nhw ei fod yn ormod ac maen nhw wedi'i ollwng.'*

> *'Rwy'n addysgu Sbaeneg i ddeg disgybl ym Mlwyddyn 10 bob nos Lun am awr a hanner. Maen nhw'n paratoi at gymhwyster NVQ mewn Sbaeneg ar gyfer Busnes.'*


> *'Mae gan Gyfnodau Allweddol 3, 4, a 5 gyfle i wneud Lladin cyn yr ysgol ac yn ystod amserau cinio. Cyn-ddarlithydd yn y Clasuron sy'n addysgu (wedi'i ariannu gan 'Classics for All').'*

> *'Addysgir Sbaeneg fel sesiwn gyda'r hwyr ym Mlynyddoedd 10–11, awr yr wythnos yn syth ar ôl yr ysgol, dros ddwy flynedd. Does dim digon o amser gyda ni ar yr amserlen i gynnwys Sbaeneg! Rydyn ni hefyd yn cynnig hyn i staff ac mae athrawon a chynorthwywyr addysgu'n cymryd y cwrs Sbaeneg. Rydyn ni'n ysgol Confucius ac yn cynnig peth TGAU Mandarin fel consortiwm o ysgolion, gydag un sesiwn ar ôl yr ysgol bob wythnos.'*

## 4.5 | Cyfleoedd i ddysgu mwy nag un iaith dramor

Gyda phob disgybl yng Nghymru eisoes yn astudio Cymraeg a Saesneg, mae'r ysgolion yn dweud mai ychydig o amser y cwricwlwm sydd dros ben i wneud lle i un iaith dramor, heb sôn am ddwy. Fodd bynnag, mae ychydig o dan hanner yr ysgolion (49 y cant) yn cynnig cyfle i bob disgybl neu i rai disgyblion ddysgu mwy nag un iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 3, ac mae 62 y cant yn gwneud hynny yng Nghyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, fel y mae'r siart a'r sylwadau isod yn dangos, mae'r cynnig hwn gan amlaf i rai disgyblion yn unig yn hytrach nag i bob disgybl:

***Ffigur 10:*** *Ysgolion sy'n cynnig cyfle i ddisgyblion ddysgu mwy nag un iaith dramor yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*




| | Pob disgybl | Rhai disgyblion | Dim un disgybl |
|---|---|---|---|
| Cyfnod Allweddol 3 | 18% | 31% | 52% |
| Cyfnod Allweddol 4 | 25% | 37% | 38% |

Cyfnod Allweddol 3 Cyfnod Allweddol 4

Pan ddadansoddir yr ymatebion hyn yn ôl statws economaidd-gymdeithasol yr ysgol, mae'n amlwg fod y rhai sydd â niferoedd isel o ddisgyblion cymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o gynnig cyfle i bob disgybl neu i rai disgyblion astudio dwy iaith dramor. Mae'r patrwm yr un fath ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 fel ei gilydd.

Mae sylwadau athrawon yn rhoi rhagor o fanylion am y mathau o drefniadau sydd yn eu lle ar gyfer astudio mwy nag un iaith dramor:

> *'Ym Mlwyddyn 7 addysgir pob un o'r tair iaith i'r disgyblion gan gylchdroi bob 10 wythnos. Un cylchdro'n unig y mae disgyblion ag anawsterau dysgu'n ei fynychu. Ac eithrio'r disgyblion hyn, mae gofyn i bob disgybl arall ddewis dwy iaith dramor fodern i'w cymryd drwodd i Flynyddoedd 8 a 9.'*

> *'Mae pob disgybl ac eithrio disgyblion AAA yn astudio Ffrangeg a Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae disgyblion AAA yn astudio Ffrangeg yn unig. Gall disgyblion gymryd Ffrangeg a Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 4.'*


> *'Yng Nghyfnod Allweddol 4 cynigir cyfle i'r disgyblion astudio Ffrangeg, Sbaeneg neu gyfuniad o'r ddwy iaith. Addysgir cwrs Ffrangeg TGAU. Addysgir cwrs NVQ Sbaeneg Lefel 2 ond caiff y disgyblion hynny sy'n rhagori yn y cwrs gyfle i astudio ar gyfer cymhwyster TGAU Sbaeneg yn ogystal. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf penderfynodd rhwng 33 a 45 y cant o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 astudio iaith dramor. Oherwydd natur y cwrs (gwaith papur ac asesiadau llafar) ni chaiff mwy na 15 disgybl astudio Sbaeneg.'*

Yn yr ysgolion hynny sy'n cynnig cyfle i ddisgyblion astudio mwy nag un iaith dramor, y model mwyaf cyffredin, yn y ddau gyfnod allweddol, yw i'r ieithoedd gael eu hastudio ar yr un pryd. Mae rhai ysgolion, fodd bynnag, yn trefnu i'r ail neu'r drydedd iaith dramor gael ei hastudio'r tu allan i'r cwricwlwm arferol, er enghraifft:

> *'Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 cynigir cyfle i'r disgyblion astudio TGAU Ffrangeg yn ystod oriau'r ysgol a NVQ Sbaeneg yn y gweithle fel iaith dramor arall y tu allan i oriau'r ysgol. Mae hwn yn gynnig da o ystyried mai 270 disgybl yn unig sydd yn yr ysgol gyfan, ac un athro ITM yn unig yn yr ysgol. Rwy'n gobeithio'n fawr y gallaf gynnig TGAU Sbaeneg iddyn nhw hefyd yn y dyfodol.'*

> *'Addysgir Ffrangeg i bob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3. Cynigir Sbaeneg fel ail iaith i ddisgyblion sy'n cyflawni'n uchel ym Mlynyddoedd 8 a 9. Caiff pob disgybl ddewis TGAU Ffrangeg. Dim ond y disgyblion a astudiodd Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 3 gaiff ei dewis yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae Eidaleg ar gael i bawb ym Mlwyddyn 10 fel cwrs allgyrsiol ond caiff ei hargymell i ddisgyblion mwy galluog a thalentog oherwydd ei bod hi'n heriol cwblhau TGAU o'r dechrau'n deg mewn blwyddyn.'*

***Ffigur 11:*** *Trefniadau i ddisgyblion astudio mwy nag un iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 (D.S.: fel cyfran o'r ysgolion sy'n cynnig y cyfleuster hwn)*





| | Gellir astudio dwy neu ragor o ITM ar yr un pryd o fewn y cwricwlwm arferol | Un Iaith Dramor Fodern ar y tro o fewn y cwricwlwm arferol (h.y. nid ar yr un pryd) | Astudir ail neu drydedd Iaith Dramor Fodern y tu allan i'r amserlen arferol | Mae'r trefniadau'n amrywio |
|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Allweddol 3 | 49% | 33% | 1% | 17% |
| Cyfnod Allweddol 4 | 63% | 18% | 8% | 11% |

## 4.6 | Cryfderau a heriau

O restr gynorthwyol o faterion a nodwyd gan yr ymchwilwyr a'r grŵp cynghori fel heriau posibl i ysgolion, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddweud a yw pob un mewn gwirionedd yn her yn eu hysgol nhw.

***Ffigur 12:*** *Pa un a yw materion amrywiol yn cael eu hystyried yn heriol*



Yr her fwyaf i gyfran fwyaf yr ysgolion – cyfanswm o 93 y cant, gan gyfuno'r rhai y mae naill ai 'yn her fawr' (57 y cant) neu 'yn eithaf heriol' (36 y cant) iddynt – yw cystadleuaeth gan bynciau eraill. Mae'r sampl ganlynol o sylwadau gan yr athrawon a ymatebodd yn dangos yr her hon:

*'Roedd y pwll opsiynau ar gyfer 2014 yn cynnwys naw pwnc, a Ffrangeg a Sbaeneg yn ddau ohonyn nhw. Mae cystadleuaeth gan bynciau eraill, yn enwedig y rhai sy'n newydd yng Nghyfnod Allweddol 4, yn broblem. Mae'r disgyblion yn tueddu i ddewis pynciau y maen nhw'n teimlo sy'n ddewis haws. Maen nhw'n ystyried bod ieithoedd yn anodd ac maen nhw'n cael eu troi oddi arnyn nhw oherwydd bod rhaid sefyll dau brawf llafar gwerth 30 y cant sy'n asesiadau o dan reolaeth.'*

*'Mae prifysgolion yn derbyn Cymraeg yn lle ITM eraill lle mae ITM yn ofynnol. Nid yw disgyblion eisiau astudio dwy iaith dramor: Cymraeg a Ffrangeg/Eidaleg. Mae Cymraeg yn orfodol i safon TGAU.'*

*'Mae'r disgyblion yn cael eu hannog yn frwd i ddewis pynciau heblaw am ITM. Ni roddir ystyriaeth i bwysigrwydd ieithoedd i'r disgyblion sydd â'r potensial i fynd ymlaen i brifysgolion Grŵp Russell. Mae eu dewisiadau wedi'u seilio'n unig ar y budd i ystadegau'r ysgol, felly anogir y disgyblion i ddewis pynciau llai academaidd lle maen nhw'n siŵr o gyflawni A*-C.'*

Er bod lefel y pryder am le ITM mewn perthynas â phynciau eraill yn uchel ym mhob math o ysgol, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o ddweud bod hyn 'yn eithaf heriol' yn unig (48 y cant), gyda 39 y cant yn unig yn gweld ei bod hi'n 'her fawr'. Mae hyn yn cymharu â 58 y cant o'r ysgolion cyfrwng Saesneg a 90 y cant o'r ysgolion dwyieithog sy'n ystyried bod cystadleuaeth gan bynciau eraill yn 'her fawr'. Fodd bynnag, gall y cydberthyniad hwn fod oherwydd ffactorau economaidd-gymdeithasol yn hytrach nag o ganlyniad i iaith yr addysgu, gan fod bron i bob ysgol cyfrwng Cymraeg a gymerodd ran yn yr astudiaeth wedi'u dosbarthu yn y cwintelau canolig i uwch ac nid oedd unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y categori economaidd-gymdeithasol mwyaf difreintiedig.

Pryder mawr arall i'r ymatebwyr yw'r niferoedd isel sy'n astudio ITM ôl-16 ac yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae tri chwarter (76 y cant) y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn gweld bod y niferoedd sy'n astudio ITM ôl-16 naill ai'n 'her fawr' (51 y cant) neu 'yn eithaf heriol' (25 y cant). Mae athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebygol o weld bod y niferoedd sy'n astudio ITM ôl-16 yn her nag y mae athrawon mewn mathau eraill o ysgol (68 y cant o'i gymharu â 90 y cant o'r ymatebwyr o ysgolion dwyieithog a 75 y cant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg). Eto gall hyn fod yn ganlyniad ffactorau economaidd-gymdeithasol yn hytrach nag iaith yr addysgu.

Dyma ddetholiad o sylwadau athrawon sy'n mynegi pryder am y niferoedd isel sy'n astudio Safon Uwch:

*'Mae'r disgyblion a'r Uwch Dîm Arwain yn ystyried bod ieithoedd, yn enwedig Ffrangeg, yn anodd. Yn aml caiff disgyblion eu hannog i beidio â dewis Ffrangeg. Credir bod Sbaeneg yn haws ac mae disgyblion yn cael eu denu'n fwy at y ffordd Sbaenaidd o fyw. Ystyrir bod Safon Uwch yn heriol iawn a bu enghreifftiau lle mae'r Uwch Dîm Arwain wedi dweud wrth fyfyrwyr na fydden nhw'n gallu cyflawni eu graddau targed yn Ffrangeg ac y gall fod angen iddyn nhw ystyried dewisiadau eraill petai angen graddau A er mwyn cael eu derbyn mewn prifysgol.'*

*'Mae'r arholiadau'n llawer anos o'u cymharu â phynciau eraill "llai heriol". Mae hyn yn troi disgyblion oddi ar barhau hyd at Safon Uwch.'*

*'Canfyddiad disgyblion yw bod ieithoedd yn anodd. Mae'r rhai sydd eisiau bod yn feddygon ac yn filfeddygon o dan bwysau i gael A* ym mhob pwnc.'*

Mae cyfran debyg (74 y cant) o'r athrawon yn poeni am y nifer isel sy'n astudio yng Nghyfnod Allweddol 4, er y gwelir bod yr olaf 'yn eithaf heriol' yn hytrach na'i fod yn 'her fawr'. Mae'r athrawon mewn ysgolion dwyieithog yn fwy tebygol o weld y niferoedd sy'n astudio yng Nghyfnod Allweddol 4 yn her – mae traean yn gweld hyn yn 'her fawr' ac mae bron i hanner yn ei weld 'yn eithaf heriol'.

Mae chwe deg un y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn dweud nad yw ITM yn ddigon o flaenoriaeth i'r uwch-reolwyr yn eu hysgolion. Mae'n amlwg fod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn fwy chwyrn gan ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwyieithog na chan ysgolion cyfrwng Cymraeg. Tra mae 30 y cant o'r ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg a 43 y cant o ysgolion dwyieithog yn dweud bod hyn yn 'her fawr', 17 y cant yn unig o'r ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n gweld hyn yn bryder mawr ac mae llai na hanner (48 y cant) yn dweud bod blaenoriaethau'r uwch-reolwyr sy'n cystadlu ag ieithoedd 'yn eithaf heriol' neu'n 'her fawr', o'i gymharu â chyfartaledd o 61 y cant ar draws pob math o ysgol. Unwaith eto, gall ffactorau economaidd-gymdeithasol yn hytrach na ffactorau eraill fod ar waith yma.

Gwelir bod ysgogi disgyblion 'yn eithaf heriol' yn 59 y cant o'r ysgolion, ac yn 'her fawr' yn 11 o'r ysgolion. Nid ymddengys fod gwahaniaethau mawr rhwng y gwahanol fathau o ysgolion yn yr ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae un ymatebydd yn nodi:

*'Ni all y disgyblion weld sut mae ieithoedd o fudd iddyn nhw, na rhai rhieni chwaith.'*


Mae cyflenwad yr athrawon, materion sy'n ymwneud ag arholiadau ac achredu yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhwng athrawon ITM, Cymraeg a Saesneg, yn llai tebygol o gael eu gweld yn heriau. Mae'r her o ddod o hyd i gyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhwng athrawon ieithoedd gwahanol yn fwy tebygol o gael ei hamlygu gan athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog (52 a 57 y cant yn y drefn honno) na chan y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (35 y cant). Er bod y niferoedd yn fach, mae rhai arwyddion y gall y mater o gyflenwad yr athrawon mewn ITM fod yn fwy heriol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nag mewn mathau eraill o ysgolion. Dywed tair o'r 23 ysgol cyfrwng Cymraeg fod cyflenwad yr athrawon yn 'her fawr', o'i gymharu ag un yn unig o'r ysgolion dwyieithog a phedair o'r 89 ysgol cyfrwng Saesneg sy'n mynegi pryder mor fawr am y mater hwn.

## 4.7 | Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i athrawon

**Pa fath o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ieithoedd y mae athrawon mewn adrannau ITM wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Er bod mwyafrif helaeth yr adrannau ITM (93 y cant) wedi cymryd rhan mewn rhyw ffurf ar DPP yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r dystiolaeth ansoddol yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a ddarperir o natur generig neu'n seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na'i fod yn bwnc-benodol. Y ffurf fwyaf cyffredin ar gyfranogi mewn DPP yw mewn digwyddiadau wedi'u trefnu gan fyrddau arholi (61 y cant o'r ysgolion), wedyn DPP wedi'i drefnu'n fewnol (51 y cant) a chyfarfodydd neu ddigwyddiadau wedi'u trefnu gan awdurdodau lleol (50 y cant). Mae ychydig o dan draean yr adrannau ITM wedi cael eu cynrychioli mewn cynadleddau a digwyddiadau cenedlaethol ar gyfer ieithoedd, ac mae tua chwarter wedi mynychu cyfarfodydd clwstwr neu rai tebyg gydag ysgolion eraill.

***Ffigur 13:*** *Mathau o DPP y mae athrawon ITM wedi'u mynychu yn y flwyddyn ddiwethaf**




*Gellid rhoi sawl ymateb

Gan ddisgrifio'r sefyllfa DPP yn eu hysgolion eu hunain, mae nifer o'r ymatebwyr yn sôn am gyfyngiadau ariannol cynyddol ar DPP neu'r ffaith fod yr unig DPP y mae ganddyn nhw fynediad iddo'n ymwneud â materion ynghylch addysgu'n gyffredinol yn hytrach na hyfforddiant sydd wedi'i anelu at ddatblygu sgiliau pwnc-benodol. Er enghraifft:

*'Mae digwyddiadau DPP mewnol... yn canolbwyntio ar faterion ysgol gyfan a blaenoriaethau cenedlaethol.'*

*'DPP cyffredinol gyda'r ALI/bwrdd arholi yn unig sy'n cael ei neilltuo.'*

Yr eithriad a nodir amlaf i hyn yw'r digwyddiadau hyfforddi, y cyfleoedd rhwydweithio a'r cynadleddau a drefnir yn benodol ar gyfer athrawon ITM gan CILT Cymru sy'n cael eu canmol yn fawr, er enghraifft:

*'Roedd y DPP a ddarparwyd gan CILT Cymru yn wych ac fe'i rhannwyd gyda'r adran Gymraeg. Rydym wedi gweithredu nifer o'r syniadau a gyflwynwyd er mwyn codi cyrhaeddiad bechgyn.'*

Yng ngoleuni penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i gyllido CILT Cymru ac i newid y ffordd y bydd DPP arbenigol i athrawon ITM yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol, byddai'n ddiddorol edrych ar fater DPP yn fanylach er mwyn sicrhau bod athrawon ITM yn ysgolion uwchradd Cymru yn gallu cynnal y lefel uchaf o ran arferion a chymhwysedd proffesiynol yn yr ieithoedd y maen nhw'n eu haddysgu.

Cymharol anfynych yng Nghymru yw'r defnydd o fforymau a chyrsiau ar-lein, weminarau a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer DPP ieithoedd. Mae sylwadau gan leiafrif bach iawn o athrawon a ymatebodd i'r arolwg yn dangos manteision ac anfanteision y cyfrwng hyfforddi hwn:

*'Does dim digon o athrawon yng Nghymru ar Twitter – mae angen edrych ar hyrwyddo hyn yn genedlaethol.'*

*'Mae'n rhaid i DPP ar ffurf fforymau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol gael ei wneud yn ein hamser ein hunain.'*

Mae'r dystiolaeth ansoddol sydd ar gael o'r arolwg hefyd yn dangos bod nifer o ysgolion yn ei chael hi'n anodd rhyddhau athrawon ar gyfer DPP oherwydd cyfyngiadau ariannol/cyllidebol yn ogystal â materion sy'n gysylltiedig â llwyth gwaith:

*'Mae cyfyngiadau cyllidebu wedi cyfyngu ar y cyfleoedd DPP ar gyfer staff. Mae llawer o'r gwaith wedi cael ei wneud yn fewnol.'*

*'Unrhyw DPP sy'n seiliedig ar ieithoedd: defnyddiol dros ben, e.e. cyfarfod CILT i hyrwyddo ieithoedd. Oherwydd pwysau ariannol/cost cyflenwi, dim ond os nad oes goblygiadau cyflenwi y cawn ni "fynd allan".'*

*'Mae'r cyfan yn ddefnyddiol, ond fel sy'n wir gyda phopeth, mae cyfyngiadau amser a llwyth gwaith yn ei gwneud hi'n anodd gweithredu syniadau newydd.'*

## 4.8 | Pwyntiau allweddol

- Mae bron i draean yr ysgolion (29 y cant) yn datgymhwyso disgyblion neu grwpiau o ysgolion o astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae hyn o ganlyniad i bwyslais cynyddol ar Gymraeg, Saesneg a mathemateg.
- Er gwaethaf canllawiau Estyn o ran amser y cwricwlwm ar gyfer ITM, mae cynifer â 43 y cant o'r ysgolion wedi lleihau'r amser gwersi ar gyfer ITM dros y tair blynedd diwethaf.
- Er bod 50 y cant o'r ysgolion yn adrodd bod rhai disgyblion sy'n dod atyn nhw o Gyfnod Allweddol 2 wedi cael profiad o iaith dramor heblaw am Gymraeg neu Saesneg, maen nhw wedi canfod mai prin y mae eu gwybodaeth yn fwy nag ychydig eiriau neu ymadroddion. Mae'r disgyblion sydd â mwy na hyn yn fwyaf tebygol o ddod o Loegr neu o dramor.
- Mae gan fwyafrif helaeth yr ysgolion (93 y cant) Ieithoedd Tramor Modern yn ddewisol yng Nghyfnod Allweddol 4 i bob disgybl. Yn 39 y cant o'r ysgolion nid yw pob disgybl sy'n dymuno astudio iaith dramor yn cael cyfle i wneud hynny.
- Mae bron i hanner yr ysgolion a ymatebodd (47 y cant) yn adrodd bod niferoedd yn gostwng ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 4, ac mewn un o bob pum ysgol mae'r gostyngiad hwn o 10 y cant neu fwy o'r disgyblion. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion yn gweithio'n galed i godi proffil y pwnc ac wedi llwyddo i gynyddu'r niferoedd.
- Gwelir mai'r rhesymau dros y gostyngiad mewn astudio ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 4 yw'r canfyddiad fod arholiadau iaith yn anodd o'u cymharu â rhai mewn pynciau eraill a nifer y pynciau sydd ar gael mewn perthynas â'r lle sydd ar gael yn y cwricwlwm ar gyfer dewisiadau rhydd. Hefyd mae athrawon yn gweld bod Bagloriaeth Cymru yn debygol iawn o gael effaith andwyol ar niferoedd y rhai sy'n astudio ITM yn y dyfodol oherwydd y ffordd y caiff dewisiadau astudio eu grwpio.
- Mae nifer yr ysgolion sy'n cynnig dewisiadau eraill galwedigaethol yn lle achredu TGAU ar gyfer ieithoedd tramor yn dal i fod yn fach: mae tua 13 y cant o'r ysgolion yn cynnig NVQ ieithoedd busnes ac mae saith y cant yn cynnig modiwlau ieithoedd tramor o fewn Bagloriaeth Cymru yn ddewis arall i TGAU yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Mae cynifer â 64 y cant o'r ysgolion wedi gweld gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr sy'n dewis cymryd Safon Uwch mewn iaith dramor dros y tair blynedd diwethaf. Mae tri chwarter yr ymatebwyr yn gweld bod y niferoedd isel sy'n astudio Ieithoedd Tramor Modern ôl-16 yn fater heriol, hyd yn oed yn fwy na'r rhai sy'n pryderu am y niferoedd sy'n astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4. Efallai mai hwn yw'r canfyddiad mwyaf difrifol i godi o'r arolwg.
- Gwelir bod cystadleuaeth a blaenoriaethu pynciau eraill a'r niferoedd isel sy'n astudio ITM yn gyffredinol, yn faterion brys gan fwyafrif sylweddol yr ysgolion. Mae cynifer â 61 y cant yn dweud nad yw ieithoedd tramor yn ddigon o flaenoriaeth i uwch-reolwyr yn eu hysgolion.
- Ffrangeg yw'r brif iaith dramor a addysgir yng Nghymru o gryn dipyn; llai na hanner yr ysgolion sy'n cynnig Sbaeneg a chwarter yn unig sy'n cynnig Almaeneg. Mae bron i hanner (49 y cant) yn cynnig rhai cyfleoedd i ddysgu ail iaith dramor, gyda chyfleoedd i wneud hynny'n gysylltiedig ag ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau mwy breintiedig.
- Mae ystod o ffactorau'n cyfyngu ar faint ac effeithiolrwydd DPP i athrawon ITM.

# 5 Effaith dwyieithrwydd

Mae Cymru mewn safle unigryw ymysg gwledydd y DU gan yr addysgir dwy iaith, Cymraeg a Saesneg, i bob plentyn, gydol ei addysg gynradd ac uwchradd. Canfu adolygiad yn Ffrainc o'r ymchwil ar y cysylltiad rhwng datblygiad iaith gyntaf a dysgu iaith dramor, er bod llythrennedd yn y famiaith yn cynorthwyo dysgu iaith dramor, fod dysgu iaith dramor hefyd yn helpu'r famiaith.[48] Mae arolwg Tueddiadau Ieithoedd yn edrych ar y ddwy agwedd hyn yng nghyd-destun dwyieithrwydd yng Nghymru.

Amlygodd adroddiad Estyn ar Ieithoedd Tramor Modern yn 2009 fod angen defnyddio budd ymrwymiad Cymru i ddwyieithrwydd mewn perthynas â dysgu ieithoedd tramor, a galwodd am fwy o gydweithredu rhwng athrawon pob iaith.[49] Adroddodd yn ffafriol iawn ar ganlyniadau prosiect Llythrennedd Triphlyg CILT Cymru (2005–2007) a oedd wedi galluogi athrawon Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Tramor Modern i gydweithio ar ymagweddu cyffredin ac i rannu syniadau ynghylch sut i wella dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau iaith. Mewn ymateb i adroddiad Estyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ac argymhellion ar gyfer ymagweddu tuag at lythrennedd triphlyg yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.[50]

Felly roedd arolwg Tueddiadau Ieithoedd eisiau edrych ar y naill law ar farn athrawon ynghylch i ba raddau y mae addysgu Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd yn cael ei weld yn fantais pan addysgir trydedd neu hyd yn oed bedwaredd iaith i blant wedyn, ac i gyfateb i hyn, a welir bod dysgu iaith dramor yn cyfrannu i'r uchelgais newydd ar gyfer llythrennedd yn Gymraeg a Saesneg fel y'i diffinnir yn y FfLlRh.[51]


O gofio bod rhai plant yn cael eu haddysgu'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bod y rhan fwyaf o blant ond nid o anghenraid pob plentyn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ddwyieithog, ceisiodd yr ymchwil hon ddatrys y cymhlethdodau cynhenid o ran effaith hyn ar ddysgu ieithoedd tramor. Hefyd archwiliodd yr arolwg a yw athrawon ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg a Saesneg, yn rhannu arferion proffesiynol â'i gilydd, ac i ba raddau y gwnânt hyn.

[48] Narcy-Combes et al. (2007)
[49] Estyn (2009)
[50] Llywodraeth Cymru (2011)
[51] Llywodraeth Cymru (2013)

## 5.1 | Canfyddiadau o fudd dwyieithrwydd

**Ydy athrawon yn credu bod dysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol gynradd o fudd i ddisgyblion wrth ddysgu trydedd neu bedwaredd iaith?**

***Ffigur 14:*** *Pa un a yw athrawon ITM yn meddwl bod dysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol gynradd o fudd wrth ddysgu ieithoedd newydd*




Mae mwyafrif helaeth – tua naw allan o ddeg – yr athrawon Ieithoedd Tramor Modern, yn credu bod dysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol gynradd o fudd i ddisgyblion wrth iddynt ddysgu iaith arall yn yr ysgol uwchradd, ac mae bron i ddau draean (60 y cant) yn credu ei fod o fudd mawr.

Dengys tystiolaeth o'n hymchwil fod ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog yn fwy tebygol nag ysgolion cyfrwng Saesneg i roi gwerth uwch ar y budd hwn. Mae pob un o'r ysgolion dwyieithog a gymerodd ran yn yr arolwg, a phob un ond un o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn dweud bod dysgu Cymraeg a Saesneg 'o ryw fudd' i'r disgyblion neu eu bod yn cael 'budd mawr'. Mewn cyferbyniad, 85 y cant o'r ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n dweud hyn. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod y disgyblion yn cael 'budd mawr' (70 y cant a 73 y cant yn y drefn honno) o'i gymharu â 54 y cant o'r ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n gweld bod y budd hwn yn 'fawr'. Fodd bynnag, oherwydd nifer bach yr ysgolion, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn.

Dywed un ymatebydd o ysgol ddwyieithog:

> *'Cyfle i adolygu pwyntiau gramadegol sylfaenol, fel defnydd priodol o briflythrennau, ffurfiau'r ferf, ansoddeiriau, collnodau ac acenion, ac yn y blaen. Cyfle i ystyried strwythur cywir brawddegau mewn ieithoedd gwahanol. Cyfle i ddatblygu'r sgìl o ddefnyddio cyd-destun i weithio allan ystyr geirfa anghyfarwydd. Maent eisoes yn deall sut mae gwneud y symud meddyliol o'r naill iaith i'r llall, ac maent eisoes yn ymwybodol o'r ffaith fod ieithoedd gwahanol yn mynegi'r un syniadau mewn ffyrdd gwahanol – mae astudio iaith dramor yn ychwanegu at y ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth hon.'*

Mae sylwadau gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn nodi'r ffyrdd penodol canlynol y mae dysgu Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd yn helpu disgyblion i ddysgu iaith dramor yn ddiweddarach:

*'Mae gan ddisgyblion wybodaeth well am sut mae rhoi geiriau yn eu trefn. Mae'r gwahaniaeth rhwng "ti" a "chi" yn Gymraeg yn ei gwneud hi'n haws deall "tu" a "vous" yn Ffrangeg.'*

*'Mae siarad dwy iaith yn gwneud i'r disgyblion fod yn fwy hyderus wrth ddysgu iaith arall. Fodd bynnag, dylai'r budd fod yn llawer mwy. Nid yw Cymraeg a Saesneg yn cael eu haddysgu fel ieithoedd, felly ychydig o wybodaeth sydd gan y disgyblion am gysyniadau gramadegol y byddai modd eu trosglwyddo i ddysgu ieithoedd eraill.'*

*'Gan fy mod yn athro mewn ysgol gyfun Gymraeg benodedig, rwy'n addysgu plant dwyieithog. Mae'r ffaith eu bod nhw eisoes yn siarad dwy iaith yn eu helpu i feddwl am eu trydedd iaith, does dim dwywaith. Mae'r ffaith eu bod wedi dysgu ail iaith yn ei gwneud hi'n haws iddyn nhw ddysgu trydedd a phedwaredd iaith. Yng ngeiriau disgybl o Flwyddyn 13, "mae dysgu amserau'r ferf a dysgu berfau'n dod yn hawdd imi achos dwi wedi bod yn meddwl am y gwahaniaeth a'r tebygrwydd rhyngddyn nhw yn Gymraeg a Saesneg ers blynyddoedd. Mae rhai geiriau fel rhai Cymraeg a rhai eraill fel rhai Saesneg, sy'n ei gwneud hi'n hawdd eu dysgu nhw!" Yn gyffredinol mae ganddyn nhw acen Ffrangeg/Sbaeneg wych, ac mae eu dealltwriaeth o'r pwnc yn dda iawn. Oherwydd eu bod nhw'n symud o'r naill iaith i'r llall drwy'r amser, mae siarad trydedd iaith, a bod yn hyderus ynddi, yn dod yn hawdd iddyn nhw, rwy'n credu'n sicr!'*

Fodd bynnag, mae un ymatebydd o ysgol cyfrwng Cymraeg yn mynegi'r farn nad yw'r ffordd yr addysgir Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd o anghenraid yn darparu sgiliau dysgu ieithoedd y gellir eu cymhwyso i ieithoedd eraill wedyn:

*'Dydw i ddim yn gweld bod budd i ddysgu ieithoedd tramor o fod wedi dysgu Cymraeg a Saesneg yn y cynradd. Dydyn nhw ddim yn cael y sgiliau iaith sydd eu hangen i lwyddo'n hawdd mewn iaith dramor.'*

Adleisir y farn arbennig hon yn sylwadau nifer o'r ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg:

*'Dydy'r disgyblion ddim yn gwybod o hyd beth yw berf, ansoddair, enw ac ati. Gall atalnodi fod yn broblem.'*

*'Mewn egwyddor dylai cael profiad o un iaith dramor o oed cynnar helpu plentyn i gaffael ieithoedd tramor eraill yn nes ymlaen ond ychydig rwy'n gwybod am faint gall plant ei wneud yn Gymraeg pan fyddant yn cyrraedd o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg. Siawns na fydd hynny'n dibynnu ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgolion cynradd – o'm profiad i gyda fy mhlant fy hun, mae'n bosib mai dim llawer iawn yw'r ateb mewn ardal Seisnig gydag ysgol gynradd cyfrwng Saesneg.'*

*'Does dim llawer o wybodaeth am ramadeg o'r cynradd, ychydig o wybodaeth sydd am sut mae Cymraeg/Saesneg yn gweithio.'*

*'Ar y cyfan does dim budd. Fel arfer mae ganddyn nhw Gymraeg gwael neu ychydig iawn o Gymraeg, heb gysondeb yn yr hyn sy'n cael ei addysgu yn yr ysgolion cynradd.'*

*'Ni allaf weld bod mwy o ddealltwriaeth o iaith er eu bod nhw'n gwneud y ddau bwnc yma. Nid yw'r disgyblion fel petaen nhw'n "cario" gwybodaeth gyffredinol am strwythur neu ramadeg ymlaen i'r uwchradd. Rwy'n teimlo bod y cyfan yn ddarniog. Mae eu defnydd ymarferol gwirioneddol o'r Gymraeg yn dameidiog iawn.'*

Fodd bynnag, teimla rhai athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, lle mae disgyblion wedi cael profiad da o ddysgu Cymraeg ail iaith yn yr ysgol gynradd, fod hyn o fudd iddyn nhw pan fyddan nhw'n dysgu iaith dramor:

*'Mae gan ddisgyblion dwyieithog agwedd lawer mwy cadarnhaol tuag at ddysgu Ffrangeg yn ein hysgol ni. Mae gennym ddosbarth dwyieithog ym Mlwyddyn 7 sy'n perfformio'n gyson uwch na'r dosbarthiadau eraill.'*

*'Gall disgyblion wneud y cysylltiadau rhwng ieithoedd. Mae gramadeg yn dod yn fwy eglur. Mae llythrennedd triphlyg yn gwella llythrennedd Saesneg. Dysgir meta-iaith, gan wneud i ramadeg fod yn haws.'*

*'Rydyn ni'n gweld bod disgyblion sydd wedi dysgu Cymraeg yn y cyfnod cynradd yn barod iawn i ddysgu iaith newydd yn yr uwchradd. Mae'r sgiliau angenrheidiol ganddyn nhw i ddysgu iaith arall a dydyn nhw ddim yn holi cymaint pam dylen nhw orfod dysgu iaith arall.'*

*'Mae bod â gwybodaeth am iaith(ieithoedd) eraill yn barod yn agor y meddwl i debygrwydd a gwahaniaethau mewn rhai newydd. Cytundeb a safle ansoddeiriau/cenedl enwau ac ati.'*

*'Byddai hyd yn oed mwy o fudd petai'r ieithoedd hynny'n cael eu haddysgu'n ramadegol, a phetai'r disgyblion yn cael eu cyflwyno i hanfodion gramadeg, gan gynnwys terminoleg benodol.'*

Lle nad yw Cymraeg ail iaith wedi cael ei haddysgu'n dda, teimla rhai ymatebwyr y gall hyn gael effaith negyddol ar gymhelliant disgyblion i ddysgu iaith arall:

*'Gall arwain at ddifaterwch tuag at ddysgu ieithoedd ar ôl profiadau o ddysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd nad oedden nhw'n gyfan gwbl gadarnhaol.'*

*'Wrth fyw mewn ardal sydd wedi'i Seisnigo i raddau helaeth, mae addysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd yn aml yn cael effaith negyddol ar addysgu ITM. Mae cyfran o rieni Saesneg, ar ôl symud i Gymru, yn gweld Cymraeg fel iaith dramor ac mae'r agwedd negyddol hon tuag at ieithoedd yn parhau wrth i'r disgyblion ddod i mewn i'r ysgol uwchradd.'*

Fodd bynnag, mewn ysgolion eraill, nid yw profiad negyddol wrth ddysgu Cymraeg ail iaith yn yr ysgol gynradd yn golygu bod disgyblion yn gyndyn o ddysgu ieithoedd eraill:


*'Yn anffodus, mae llawer o ddisgyblion wedi cael profiad negyddol wrth ddysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd. Mae'r disgyblion bob amser yn llawn brwdfrydedd am ddysgu Ffrangeg ac mae'n rhyddhad iddyn nhw gael profiad o ddysgu iaith yn wahanol.'*

*'Nid yw'r ffaith iddyn nhw ddysgu Cymraeg a Saesneg fel petai o fudd i ddysgu ieithoedd gan fod disgyblion yn aml yn wrthwynebus tuag at ddysgu Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau iaith dramor yn llawer mwy ac yn aml yn honni ei bod yn fwy defnyddiol na Chymraeg (barn NAD ydyn ni'n ei rhannu, wrth gwrs!).'*

## 5.2 | Cyfraniad i lythrennedd

**A ystyrir bod Ieithoedd Tramor Modern yn cyfrannu i lythrennedd yn Gymraeg a Saesneg?**
Wedyn edrychwyd ar fudd cysylltiad rhwng Cymraeg/Saesneg a dysgu ieithoedd tramor o safbwynt gwerth posibl ITM i lythrennedd cyffredinol plant. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr ystyrir yn eu hysgol fod ITM yn cynorthwyo agenda ehangach datblygu sgiliau llythrennedd yn Gymraeg a Saesneg, fel y'u diffinnir gan y FfLlRh. Edrydd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (83 y cant) yr ystyrir bod ITM o leiaf yn gwneud ychydig o gyfraniad yn eu hysgol; fodd bynnag, yn nhraean yr ysgolion yn unig (35 y cant) yr ystyrir eu bod yn gwneud cyfraniad pwysig. Yn 16 y cant o'r ysgolion nid ystyrir bod ITM yn gwneud llawer o gyfraniad ac mewn un ysgol (a dalgrynnwyd i fyny i un y cant) mae'r ymatebydd yn adrodd nad ystyrir bod ITM yn gwneud unrhyw gyfraniad o gwbl.

***Ffigur 15:*** *Pa un a yw ysgolion yn ystyried bod ITM yn cynorthwyo datblygiad sgiliau llythrennedd yn Gymraeg ac yn Saesneg*




Mae ymatebwyr o ysgolion dwyieithog (dwyieithog a Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg) yn llai tebygol na'r rhai o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg (73 y cant yn erbyn 91 a 84 y cant yn y drefn honno) o ddweud yr ystyrir bod dysgu iaith dramor yn gwneud cyfraniad i sgiliau llythrennedd, er bod y niferoedd yn fach a'i bod yn anodd tynnu casgliadau cadarn yn seiliedig ar y math o ysgol. Mae sylwadau gan athrawon mewn ysgolion dwyieithog yn cefnogi'r dehongliad hwn o'r data:

> *'Rwy'n credu nad yw faint gall ITM ei gyfrannu i'r FfLlRh yn cael ei werthfawrogi oherwydd diffyg dealltwriaeth yr Uwch-Dîm Arwain o'r pwnc.'*

> *'Mae'n codi fy ngwrychyn i fod ein Hymgynghorydd Sir wedi dweud wrtha i mewn HMS nad yw Ffrangeg yn rhan o'r FfLlRh.'*

Er mai athrawon ITM mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd fwyaf tebygol o ddweud yr ystyrir bod eu pwnc yn gwneud 'ychydig' o gyfraniad i sgiliau llythrennedd (65 y cant, o'i gymharu â 46 a 41 y cant ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn y drefn honno), nhw yw'r lleiaf tebygol o ddweud yr ystyrir eu bod yn gwneud 'cyfraniad mawr' (26 y cant, o'i gymharu â 37 a 32 y cant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwyieithog). Mae nifer o sylwadau gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn awgrymu y gall rôl yr adran ITM fod ar y cyrion braidd o ran datblygu llythrennedd:

*'Nid oes gennym ymgynghorwyr iaith, ac nid yw'r athrawon ieithoedd wedi cael hyfforddiant mewn hybu sgiliau llythrennedd, felly gan mai Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd yr arweinwyr llythrennedd yn yr ysgol, mae ITM yn y cefndir braidd ar hyn o bryd.'*

*'Dim digon – dewiswyd ein hadran i adrodd yn ôl ar rifedd, nid llythrennedd!'*

*'Rydyn ni'n aml yn teimlo'n eilradd i Gymraeg a Saesneg gan nad yw ITM yn bynciau craidd.'*

Fodd bynnag, mae tystiolaeth o arferion da hefyd:

*'Cawn ein hannog a'n cynorthwyo i sicrhau bod ITM yn cynorthwyo'r agenda ehangach i ddatblygu sgiliau llythrennedd fel y'u diffinnir gan y Fframwaith Llythrennedd.'*

Mae sylwadau, yn enwedig gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn rhoi tystiolaeth bod rhywfaint o ddryswch ynghylch y diffiniad o 'lythrennedd' ac a ddeellir ei fod yn cynnwys sgiliau mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg:

*'Mae gofyn inni gyflawni rhai o'r llinynnau llythrennedd ond rydym o dan yr argraff fod "llythrennedd" yn cyfeirio at ieithoedd cyntaf dysgwr.'*

*'Mae'r staff eraill o'r farn nad yw ITM yn gwneud unrhyw gyfraniad i addysgu llythrennedd oherwydd ein bod yn addysgu iaith arall. Nid yw'r effaith y gallwn ni ei chael ar sgiliau llythrennedd yn cael ei gwerthfawrogi o gwbl.'*

*'Ystyrir bod ITM o fudd i lythrennedd yn yr un ffordd â'r pynciau di-graidd eraill yn unig. Ychydig o ddealltwriaeth neu o ddiddordeb sydd mewn datblygu ITM mewn ffordd benodol at y diben hwn. Yn yr Adran ITM rydym wrth gwrs yn canolbwyntio llawer ar ddatblygu llythrennedd, e.e. drwy sillafu seiniau, strategaethau darllen, gramadeg cymharol ac ati.'*

Fodd bynnag, mae athrawon ITM yn ymwybodol iawn o'r cyfraniad y maen nhw'n ei wneud, nid yn unig i lythrennedd ond hefyd i rifedd:

*'Rwy'n credu eu bod yn cydnabod ein cyfraniad ond dwi ddim yn siŵr faint mae ein cydweithwyr yn sylweddoli rydym yn ei gyfrannu i lythrennedd a rhifedd! Yn enwedig wrth addysgu disgyblion sut mae dweud yr amser cyn ei addysgu yn Ffrangeg, neu ddweud wrth ddisgyblion Blwyddyn 7 beth yw ystyr unigol a lluosog yn Saesneg oherwydd nad ydyn nhw'n deall y cysyniad!'*

*'Teimlwn fel athrawon ieithoedd ein bod yn defnyddio mwy o derminoleg ramadegol nag athrawon Saesneg ac yn aml mae'n rhaid inni esbonio'r derminoleg i'r disgyblion. Rydym yn pwyso fel bod ein rôl o fewn y FfLlRh ac o fewn datblygu sgiliau llythrennedd yn cael rhagor o gydnabyddiaeth.'*


*'Yn amlwg mae gan addysgu ITM gyfraniad enfawr i ddatblygu sgiliau llythrennedd ein disgyblion. Fodd bynnag, oherwydd mai ychydig o iaith sy'n cael ei chaffael yng Nghyfnod Allweddol 3, nid ydym yn adrodd yn erbyn y FfLlRh ar Lythrennedd.'*

## 5.3 | Rhannu arferion ag athrawon Cymraeg a Saesneg

**Ydy athrawon Ieithoedd Tramor Modern yn rhannu arferion ag athrawon Cymraeg a Saesneg?**

Llai na hanner (46 y cant) yr ysgolion sy'n darparu cyfleoedd cyson i athrawon ITM ac athrawon Cymraeg a Saesneg rannu arferion proffesiynol â'i gilydd; yn anaml y mae 45 y cant yn gwneud hynny ac nid yw naw y cant byth yn gwneud hynny.

***Ffigur 16:*** *Pa un a yw athrawon Ieithoedd Modern yn rhannu arferion ag athrawon Cymraeg a Saesneg*




Mae dadansoddiad o'r ymatebion fesul mathau o ysgolion yn dangos bod athrawon ITM mewn ysgolion dwyieithog (a Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg) yn llai tebygol o rannu arferion ag athrawon Cymraeg a Saesneg na'r rhai mewn ysgolion uniaith. Nid yw un o'r athrawon o ysgolion dwyieithog yn dweud eu bod yn rhannu arferion 'yn gyson ac yn aml' ac maen nhw'n fwy tebygol o wneud hynny 'yn anaml' neu 'byth'. Fodd bynnag, nid oedd sylwadau ar y pwnc hwn gan athrawon mewn ysgolion dwyieithog.

Mae athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn amlygu'r anawsterau o ran rhannu arferion proffesiynol, ond maent yn nodi bod y FfLlRh bellach yn creu cyfleoedd ar gyfer cyd-drafod:

> *'Mae pwysau amser yn ei gwneud hi'n anodd rhannu arferion mewn ysgol fach.'*

> *'Ychydig o gyswllt sydd gennym â'r adran Saesneg neu nid oes gennym ddim cyswllt o gwbl ac ychydig iawn o rannu arferion da sy'n digwydd gyda Chymraeg, er ein bod yn yr un gyfadran. Ond mae'r fframwaith llythrennedd a'i weithredu'n achosi mwy o drafodaeth.'*

> *'Rhannwyd arferion da'n fwy yn y gorffennol ond wrth gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd, mae'r ysgol yn trefnu cyfarfodydd pedagogeg yn weddol aml fel y gallwn gymharu cynnydd disgyblion o safbwynt Llythrennedd, yn ogystal â rhannu arferion da.'*

Mae un ymatebydd yn nodi:

> *'Mae dulliau addysgu iaith gyntaf yn wahanol i ddulliau addysgu iaith dramor.'*

Mae athrawon Ieithoedd Tramor Modern o ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol o rannu arferion da â chydweithwyr sy'n addysgu Cymraeg ail iaith nag y maen nhw ag athrawon yn yr adran Saesneg:

> *'Mae ITM a Chymraeg bob amser yn rhannu arferion da gan ein bod yn rhan o gyfadran sy'n cydweithio'n agos. Ond dydyn ni ddim yn gweithio'n agos gyda Saesneg.'*

> *'Yn yr ysgol, rydyn ni'n mwynhau perthnasoedd gweithio da iawn gyda'r adran Gymraeg, ac yn aml trafodir materion y cwricwlwm yn anffurfiol. Mae enghreifftiau niferus o rannu arferion da rhwng yr adrannau Ffrangeg, Sbaeneg a Chymraeg.'*

> *'Mae'n debygol y bydd peth newid yn y sefyllfa hon yn y dyfodol agos gan ein bod yn gwneud peth gwaith mewn triawdau gyda staff o'r ddwy adran ac o dan yr ailstrwythuro, y bwriad yw grwpio Cymraeg a Ffrangeg fel un gyfadran ieithoedd gydag un Pennaeth Cyfadran yn goruchwylio'r gwaith yn y ddwy adran.'*

> *'Hyd at eleni roedd Cymraeg, Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg wedi bod yn y Gyfadran ITM o dan arweiniad Pennaeth y Gyfadran. Nid oes gennym unrhyw gysylltiadau â'r Adran Saesneg. Fel athrawon ieithoedd rydym yn rhannu arferion da yng nghyfarfodydd y gyfadran ac rydym wedi cynhyrchu posteri llythrennedd pedwarplyg ar ferfau, cysyllteiriau, ansoddeiriau ac ymadroddion amser. Gan fod gennym rai athrawon Cymraeg yn addysgu Ffrangeg eleni mae mwy o groesi drosodd yn digwydd.'*

Mae prosiectau wedi'u rhedeg gan CILT Cymru wedi gwneud llawer i hybu'r cysyniad o 'lythrennedd triphlyg' ac maen nhw wedi darparu cyfleoedd i adrannau gydweithio:

> *'O fewn yr ysgol mae'r rhannu'n dda gyda Chymraeg ond dim ond ers inni fod yn rhan o weithgor CILT ar y FfLlRh y mae hyn wedi gwella.'*

> *'Rydym wedi cynnal sesiynau hyfforddi llwyddiannus gyda Chymraeg a ITM yn ymwneud ag asesu ar gyfer dysgu, a chyfarfodydd llythrennedd triphlyg ar gyfer Saesneg, Cymraeg, Ffrangeg i edrych ar ddulliau 'Tactical Teach' ar gyfer codi safonau darllen. Mae hyn wedi bod yn eithaf manwl ar y pryd ond mae diffyg amser yn ei gwneud hi'n anodd cwrdd yn gyson yn barhaus.'*

Fodd bynnag, mae sylwadau eraill yn dangos bod bwlch mewn rhai ysgolion rhwng addysgu ITM a Chymraeg/Saesneg:

> *'Mae'r adran Gymraeg yn addysgu mewn ffordd wahanol iawn i ni felly rydym yn tueddu i beidio â thrafod methodoleg ryw lawer â nhw.'*

> *'Nid yw'r Adran Saesneg yn gweld bod glo mân iaith (gramadeg) yn rhan o'u gwaith nhw. Mae peth trawsffrwythloni gyda Chymraeg, ond rydyn ni i gyd yn bobl brysur. Ceisiais ddechrau Cymuned Ddysgu Broffesiynol Llythrennedd Triphlyg gyda chydweithiwr o'r adrannau Cymraeg a Saesneg, ond roedd diffyg diddordeb a brwdfrydedd am y prosiect.'*

## 5.4 | Pwyntiau allweddol

- Mae cynifer â 89 y cant yr athrawon ITM o'r farn fod dysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol gynradd o fudd i ddisgyblion wrth ddysgu iaith dramor yn yr ysgol uwchradd, ac mae bron i ddau draean (60 y cant) o'r farn ei fod o fudd mawr. Fodd bynnag, cred llawer o athrawon mai dim ond os yw'r disgyblion wedi cael addysgu Cymraeg o ansawdd uchel yn yr ysgol gynradd y gellir gwireddu budd dwyieithrwydd – mae nifer yn nodi nad felly y mae ac o ganlyniad fod disgyblion yn cael anhawster wrth ddysgu ieithoedd.

- Felly hefyd, mae mwyafrif sylweddol yr athrawon (83 y cant) a ymatebodd i'r arolwg hwn yn adrodd yr ystyrir bod ITM yn gwneud o leiaf ychydig o gyfraniad i lythrennedd yn eu hysgol; fodd bynnag, yn nhraean yr ysgolion yn unig (35 y cant) yr ystyrir eu bod yn gwneud cyfraniad mawr. Yn 16 y cant o'r ysgolion nid ystyrir bod ITM yn gwneud llawer o gyfraniad ac mewn un ysgol (a dalgrynnwyd i un y cant) mae'r ymatebydd yn adrodd nad ystyrir eu bod yn gwneud unrhyw gyfraniad o gwbl. Mae'r sylwadau a wnaed gan lawer o'r athrawon a gymerodd ran yn yr arolwg hwn yn awgrymu bod cryn ddryswch mewn ysgolion ynghylch y rôl y gall ieithoedd tramor ei chwarae wrth gynorthwyo datblygiad llythrennedd a'r ffordd y gallan nhw gyfrannu i'r FfLlRh.

- Er bod yr arolwg yn rhoi ychydig o dystiolaeth fod cyfraniad Cymraeg a Saesneg i ddysgu ieithoedd tramor yn tueddu i gael ei werthfawrogi'n fwy mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae ymwybyddiaeth o werth cyfatebol ITM mewn perthynas â llythrennedd cyffredinol yn llai amlwg ac ymddengys eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n llai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nag mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

- Llai na hanner (46 y cant) yr ysgolion sy'n darparu cyfleoedd cyson i athrawon ITM, Cymraeg a Saesneg rannu arferion proffesiynol â'i gilydd. Yn anaml y mae tua 45 y cant yn gwneud hynny ac nid yw naw y cant byth yn gwneud hynny. Mewn rhai ysgolion cyfrwng Saesneg, mae tystiolaeth am gydweithredu llwyddiannus rhwng athrawon Cymraeg ail iaith ac ITM.

# 6 Casgliadau

### 1. Mae Ieithoedd Tramor Modern yn cael eu gwthio fwyfwy i'r cyrion o ganlyniad i nifer o newidiadau y mae ysgolion yn eu gwneud i ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau ariannol ac amserlennu yn ogystal â systemau asesu a gofynion adrodd newydd.

Darlun o athreuliad yw'r darlun cyffredinol ar gyfer dysgu ieithoedd tramor yn ysgolion Cymru, a phrin yw'r gobaith y gellir gwella'r sefyllfa neu atal y dirywiad. Os yw'r Athro Davies wedi nodi ei bod hi'n 'unfed awr ar ddeg' ar Gymraeg ail iaith, yna mae hi hefyd yn mynd yn hwyr iawn ar ieithoedd tramor modern. Nid oes ymdeimlad o egni neu hyder am gyfeiriad y pwnc a'r hyn a ddigwydd yn y dyfodol.

Mae'r gostyngiad mewn amser gwersi ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 3, lle ITM fel pwnc dewisol o fewn dewis helaeth o ddewisiadau eraill a'r diffyg cyfleoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 i bob disgybl sy'n dymuno astudio iaith dramor, i gyd yn ychwanegu at yr argraff fod y pwnc ar y cyrion o fewn system addysg Cymru. Yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban, nid oes polisi i ddechrau dysgu iaith dramor yn gynharach nag 11 oed, gyda'r goblygiad fod Cymru yn debygol o syrthio hyd yn oed ymhellach ar ei hôl hi yn y dyfodol. Gallai hyn fod â goblygiadau difrifol o ran cymaroldeb arholiadau TGAU Cymru a Lloegr mewn Ieithoedd Tramor Modern.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, yr unig gyfnod addysg pan fydd astudio iaith dramor yn orfodol yng Nghymru, lleiafswm profiad neu brofiad darniog yn unig o ddysgu iaith dramor a gaiff llawer o ddisgyblion. Pan fydd disgyblion yn dewis eu pynciau TGAU, mae Ieithoedd Tramor Modern yn gwneud yn wael gan yr ystyrir eu bod yn anos na llawer o bynciau eraill, yn annarogan o ran cyflawni'r graddau uchaf sydd eu hangen er mwyn mynd ymlaen i astudio i Safon Uwch a heb fod cyn bwysiced ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol â phynciau STEM. Hefyd mae nifer o'r athrawon a ymatebodd i arolwg Tueddiadau Ieithoedd yn mynegi pryder y bydd y grwpio dewisiadau pwnc newydd ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn cael effaith andwyol eto ar y niferoedd sy'n astudio Ieithoedd Tramor Modern.

Mae'r sefyllfa ôl-16 yn peri mwy fyth o bryder. Mae niferoedd y bobl ifanc sy'n dewis astudio iaith dramor ar Safon Uwch wedi bod yn fach erioed, ond mae cynifer â 64 y cant o'r ysgolion yn adrodd iddynt weld gostyngiad yn y niferoedd sydd eisoes yn fach o fyfyrwyr sy'n dewis astudio Safon Uwch mewn ITM dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r niferoedd isel iawn o fyfyrwyr sy'n dewis ITM yn golygu, mewn nifer o achosion, fod cyrsiau'n mynd yn anhyfyw yn ariannol. Materion eraill sy'n cyfrannu i'r gostyngiad mewn niferoedd ar Safon Uwch yw'r ffaith fod arholiadau Safon Uwch mewn ITM yn anos o'u cymharu â'r rhai mewn pynciau eraill a bod angen i fyfyrwyr fod yn fwy sicr o gyflawni'r graddau uchaf ar Safon Uwch er mwyn derbyn lleoedd prifysgol.

Mae gan y cwricwlwm newydd a gynigiwyd gan yr Athro Donaldson botensial i ddod â phob un o'r pynciau iaith yn nes at ei gilydd ac i alluogi plant yng Nghymru i ddod i ddefnyddio tair neu ragor o ieithoedd yn hyderus. Fodd bynnag, heb gyfeiriad ac arweiniad eglur i ysgolion, mae perygl hefyd y bydd Ieithoedd Tramor Modern yn cael eu gwthio hyd yn oed ymhellach i'r cyrion fel pwnc, wrth i ysgolion ganolbwyntio mwy ar Gymraeg a Saesneg.

### 2. Nid yw ysgolion yn manteisio'n llawn ar fudd sylweddol dwyieithrwydd sydd ar gael i Gymru er mwyn hwyluso dysgu trydedd neu bedwaredd iaith.

Mae'r dystiolaeth doreithiog o ymchwil academaidd fod dwyieithrwydd yn hwyluso dysgu ieithoedd eraill[52] yn debygol o wneud i rywun ddisgwyl y byddai niferoedd sylweddol o ddisgyblion yn ysgolion Cymru yn dewis dysgu trydedd neu bedwaredd iaith yn ogystal â chael cyfradd llwyddiant uchel mewn arholiadau ieithoedd. Fodd bynnag, mae'r data meintiol sydd ar gael yn dangos mai'r gwrthwyneb sy'n wir, a Chymru, mewn gwirionedd, sydd â'r niferoedd isaf sy'n astudio ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 4 o bob un o bedair gwlad y DU.

Dengys arolwg Tueddiadau Ieithoedd fod cynifer â 90 y cant o'r athrawon ITM yn credu bod dysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol gynradd o fudd i ddisgyblion wrth ddysgu iaith dramor yn yr ysgol uwchradd, ac mae bron i ddau draean (60 y cant) yn disgrifio ei fod o 'fudd mawr'. Fodd bynnag, mae'r data ansoddol a gasglwyd yn ystod yr ymchwil hon yn datgelu bod llawer o athrawon o'r farn mai dim ond os yw'r disgyblion yn cael ansawdd uchel o addysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd y gellir gwireddu budd posibl dwyieithrwydd ac mae nifer yn dweud oherwydd nad felly y bu, fod disgyblion yn cael anawsterau wrth ddysgu iaith dramor yn yr ysgol uwchradd. Hefyd mae'r ymatebwyr i arolwg Tueddiadau Ieithoedd yn gweld nad yw addysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd fel petai'n cael ei anelu at ddatblygu sgiliau dysgu ieithoedd ehangach ac maent yn nodi hyn yn un o'r rhesymau pam na ellir adeiladu ar brofiadau dysgu ieithoedd blaenorol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.

Mae'r arolwg yn datgelu bod y rhan fwyaf o'r ysgolion yn ystyried Cymraeg, Saesneg a ITM yn bynciau hollol ar wahân heb botensial am gydweithio neu ymagweddu cyffredin tuag at addysgu. Mae'r gwahaniaethau hyn yn arwain at ddiffyg cyfleoedd i athrawon gyfnewid arferion proffesiynol da a'r canfyddiad, er gwaethaf canllawiau swyddogol, nad oes gan ITM ddim i'w wneud â llythrennedd yn Gymraeg neu Saesneg. Mae hyn yn effeithio ar allu disgyblion i gario'r dysgu o'r naill iaith i'r llall. Dengys ein hymchwil mai llai na hanner (46 y cant) yr ysgolion sy'n darparu cyfleoedd cyson i athrawon ITM, Cymraeg a Saesneg rannu arferion proffesiynol â'i gilydd.

Mae cyflwyno cwricwlwm newydd sy'n gosod Cymraeg, Saesneg ac ITM o fewn yr un maes astudio, yn rhoi cyfle i wella hyn.

### 3. Ni werthfawrogir y cyfraniad y gall dysgu ieithoedd tramor ei wneud i wella llythrennedd disgyblion ac nid yw llawer o ysgolion yn gweld bod ITM yn ganolog er mwyn cyflawni nodau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh).

Mae Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi cyhoeddi canllawiau ac argymhellion ynghylch datblygu arferion cyffredin rhwng athrawon ITM, Cymraeg a Saesneg.[53] Bu i brosiect Llythrennedd Triphlyg arloesol a weithredwyd gan CILT Cymru mewn ysgolion ledled Cymru o 2005 i 2007, wneud llawer i hyrwyddo cydweithio rhwng athrawon ieithoedd gwahanol a oedd i gyd yn gweithio tuag at wella sgiliau llythrennedd cyffredinol disgyblion ac fe'i dyfynnwyd ar sawl achlysur gan yr ymatebwyr i arolwg Tueddiadau Ieithoedd. Felly, braf yw gweld bod mwyafrif helaeth yr athrawon (83 y cant) sy'n ymateb i arolwg Tueddiadau Ieithoedd yn adrodd yr ystyrir bod Ieithoedd Tramor Modern yn gwneud o leiaf ychydig o gyfraniad i ddatblygu llythrennedd yn eu hysgol. Fodd bynnag, yn nhraean yr ysgolion yn unig (35 y cant) yr ystyrir bod cyfraniad ITM i lythrennedd cyffredinol yn 'fawr' ac nid yw cynifer â 16 y cant o'r ysgolion yn gweld bod ITM yn gwneud llawer o gyfraniad i lythrennedd. Mae'n ddiddorol nodi bod mwy o ymwybyddiaeth o fudd dysgu Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd wrth addysgu iaith dramor, nag sydd o'r cysyniad y gall hyn weithio i'r cyfeiriad arall hefyd. Efallai bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith na wneir y cysylltiad rhwng ieithoedd tramor a llythrennedd yn benodol yn nogfennaeth y FfLlRh; fodd bynnag, mae digon yn nogfennaeth y FfLlRh i annog ysgolion i gynnwys

[52] Gweler y cyflwyniad i Bennod 5, tudalen 48.
[53] Llywodraeth Cymru (2011); Estyn (2009)

ITM yn eu gwaith i ddatblygu llythrennedd disgyblion. Er y dylai'r gweithio trawscwricwlaidd a argymhellir yn nogfennaeth swyddogol y FfLlRh rwystro arferion ymynysol, awgryma'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd yn rhan o'r ymchwil hon fod ysgolion yn ddryslyd ynghylch y rôl sydd gan ITM i'w chwarae yn natblygiad llythrennedd cyffredinol disgyblion. Fodd bynnag, mae'r athrawon sy'n cymryd rhan yn yr arolwg hwn yn rhoi digon o dystiolaeth fod llawer o'r gweithgarwch y mae disgyblion yn ymgymryd ag ef mewn ystafelloedd dosbarth ITM yn cynorthwyo llythrennedd ehangach, gan gynnwys cysylltiadau sain/sillafu, strategaethau darllen, gwaith gramadeg cymharol a gweithgareddau ysgrifennu estynedig. Byddai mwy o ymdrech benodol i ddangos sut gall ITM gyfrannu i lythrennedd ehangach nid yn unig yn cynorthwyo mwy o gydweithredu ysgol gyfan tuag at lefelau llythrennedd gwell ac yn sicrhau canlyniadau gwell yn erbyn nodau'r FfLlRh, ond byddai hefyd yn rhoi mwy o gydnabyddiaeth i rôl dysgu ieithoedd tramor yn addysg plant.

### 4. Mae'r lefelau isel o ran gwerthfawrogi ieithoedd gan rieni a chan ddisgyblion yn arbennig yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion o ran gweld Ieithoedd Tramor Modern yn bwnc i'w astudio o ddifrif. Nid yw safbwyntiau o'r fath yn cael eu hateb gan negeseuon y rhai sy'n llunio polisïau ac yn dylanwadu arnynt.

Er gwaethaf y llu ffynonellau tystiolaeth sy'n amlygu'r cyfraniad y gall sgiliau ieithoedd a rhyngddiwylliannol ei wneud i dwf economaidd cenedl a lles ei dinasyddion, ychydig iawn sydd o ran polisi Llywodraeth Cymru neu arfer mwyafrif y rhanddeiliaid a'r rhai allweddol sy'n dylanwadu yng Nghymru i ddangos ymroddiad i ieithoedd tramor y tu hwnt i'r Gymraeg a'r Saesneg neu i feithrin gwerthfawrogiad o werth ieithoedd tramor ymysg pobl ifanc, eu rhieni a darpar gyflogwyr. O ran agweddau, mae Cymru yn debyg iawn i rannau eraill o'r DU lle mae diffyg dealltwriaeth am werth ieithoedd tramor yn gyffredin. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diweddar mae'r Alban a Lloegr wedi cyflwyno polisïau er mwyn gwella sefyllfa dysgu ieithoedd yn y cwricwlwm.

Mae'r arolwg gan yr Athro Donaldson a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r cwricwlwm a systemau asesu yng Nghymru yn nodi'n eglur iawn y bydd sgiliau wedi'u datblygu'n dda mewn Cymraeg a Saesneg yn cynorthwyo'r broses o ddysgu trydedd a phedwaredd iaith ac yn helpu Cymru i fanteisio i'r eithaf ar ei photensial llawn fel cenedl hyderus a chystadleuol. Fodd bynnag, heb bolisi cadarn ar addysgu ITM i wrthweithio'r niferoedd isel iawn sy'n astudio ieithoedd tramor a'r gostyngiad sydyn yn y niferoedd hynny, yn enwedig ar lefel ôl-16, mae'n annhebygol y gwireddir y potensial hwn.

Mae ymatebion athrawon yn awgrymu nad yw mwyafrif pobl ifanc a rhieni yng Nghymru yn gwerthfawrogi nac yn ymwybodol o'r budd sydd i sgiliau mewn ieithoedd tramor a dealltwriaeth ryngddiwylliannol o ran manteision ar gyfer astudio, datblygiad personol a chyflogaeth. Nid yw'r gymuned ITM yn ei chyfanrwydd yn manteisio'n llwyddiannus ar ganfyddiadau ymchwil er mwyn gwneud achos cryf dros ddysgu ieithoedd tramor mewn termau y gall rhanddeiliaid a rhai dylanwadol allweddol eu deall a'u gwerthfawrogi.

Nid yw'r diffyg polisi penodol ar addysgu Ieithoedd Tramor Modern yn ogystal â chamau fel dileu ieithoedd tramor fel elfen graidd o Fagloriaeth Cymru neu dynnu'r grant blynyddol a roddir i CILT Cymru, yr asiantaeth genedlaethol ar gyfer ieithoedd, i ariannu amrywiaeth eang o weithgareddau cysylltiedig ag ieithoedd gydag ysgolion, yn gwneud dim ond cryfhau'r neges nad yw ieithoedd tramor yn ganolog i addysg bobl ifanc yng Nghymru.

I atal dirywiad syfrdanol Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion ledled Cymru ac i fynd i'r afael â'r canfyddiad cyffredinol nad yw ieithoedd yn bwysig nac yn ddefnyddiol iawn, bydd angen gweithredu dyfal ar y lefel uchaf, er mwyn rhoi sylw i'r heriau systemig/strwythurol y mae ysgolion yn eu hwynebu ac i ddechrau mynd i'r afael ag agweddau cymdeithasol annefnyddiol sydd wedi hen galedu.

# Cyfeiriadau

Abu-Rabia, S. a Sanitsky, E. (2010) 'The advantages of bilinguals over monolinguals in learning a third language', *Bilingual research journal,* Cyfrol 33.2, tt.173–199.

Association of Graduate Recruiters et al. (2011) *Global graduates into global leaders*. Llundain: AGR.

Baker, C. (2011) *Foundations of bilingual education and bilingualism*. Bryste: Multilingual Matters.

Caccavale, T. (2007) 'The correlation between early second language learning and native language skill development', *Learning languages,* 13, 1, tt.31–32.

CBI (2014) Gateway to growth. *Arolwg CBI/Pearson Education and Skills 2014*. Llundain: CBI

Cenoz, J. a Valencia, J. (1994) 'Additive trilingualism: evidence from the Basque country'. *Applied psycholinguistics*, 15: 197–209.

Cummins, J. (2000) *Language, power and pedagogy: bilingual children in the crossfire*. Bryste: Multilingual Matters.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012) *Ymchwiliad i weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol llwyddiannus: adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Estyn (2009) *Gwella ieithoedd tramor modern yn ysgolion uwchradd Cymru*. Caerdydd: Estyn.

Estyn (2014) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2013-2014*. Caerdydd: Estyn.

Foreman-Peck, J. a Wang, Y. (2014) *The costs to the UK of language deficiencies as a barrier to UK engagement in exporting. A report to UK Trade and Industry*. Caerdydd: Ysgol Busnes Caerdydd.

Grove, D. (2011) *Talking the talk, so that Scotland can walk the walk. The economic case for improving language skills in the Scottish workforce*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Gwerthusiad o'r Prosiectau Peilot Ieithoedd Tramor Modern Cyfnod Allweddol 2 sy'n cael eu Cyflwyno yng Nghymru o 2003-2006*, tt. 1–59. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru a Young Wales (2010) *Sicrhau bod ieithoedd yn cyfrif*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru (2011) *Cynorthwyo llythrennedd triphlyg. Dysgu ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth yr iaith Gymraeg 2012 i 2017*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013) *Archwiliad sgiliau strategol cenedlaethol ar gyfer Cymru, 2012*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013) *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth yr Alban (2012) *Languages in Scotland: a 1+2 Approach. Languages Working Group Report, May 2012*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban.
http://www.scotland.gov.uk/Publications/2012/05/3670/downloads

Narcy-Combes, J.P. et al. (2007) *Rapport sur l'enseignement de l'anglais à l'école*. Paris: Société des Anglicistes de l'Enseignement Supérieur.

Senedd Ewrop (2010) *Improving the participation in the Erasmus programme*. Brwsel: Senedd Ewrop.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2012) *First European survey on language competences. Final report*. Strasbourg: yr UE.

Yr Academi Brydeinig (2011) *Language matters more and more*. Llundain: Yr Academi Brydeinig.

Yr Academi Brydeinig (2013) *Languages, the state of the nation. Demand and supply of language skills in the UK*. Llundain: Yr Academi Brydeinig.

Yr Academi Brydeinig (2014) *Born global: summary of interim findings*. Llundain: Yr Academi Brydeinig.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2014) *Improving schools in Wales*. Paris: OECD.

# Atodiad: Proffiliau ymateb

**Fesul awdurdod lleol**

| | Poblogaeth | | Ymatebion | |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 4 | 1.9% | 0 | 0.0% |
| **Merthyr Tudful** | 4 | 1.9% | 1 | 0.7% |
| **Sir Fynwy** | 4 | 1.9% | 3 | 2.2% |
| **Ynys Môn** | 5 | 2.3% | 4 | 2.9% |
| **Tor-faen** | 7 | 3.3% | 2 | 1.5% |
| **Conwy** | 7 | 3.3% | 4 | 2.9% |
| **Ceredigion** | 7 | 3.3% | 4 | 2.9% |
| **Casnewydd** | 8 | 3.8% | 3 | 2.2% |
| **Sir Ddinbych** | 8 | 3.8% | 5 | 3.7% |
| **Bro Morgannwg** | 8 | 3.8% | 6 | 4.4% |
| **Sir Benfro** | 8 | 3.8% | 8 | 5.9% |
| **Pen-y-bont** | 9 | 4.2% | 7 | 5.1% |
| **Wrecsam** | 9 | 4.2% | 7 | 5.1% |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 11 | 5.2% | 8 | 5.9% |
| **Sir y Fflint** | 12 | 5.6% | 7 | 5.1% |
| **Sir Gaerfyrddin** | 12 | 5.6% | 8 | 5.9% |
| **Powys** | 12 | 5.6% | 8 | 5.9% |
| **Gwynedd** | 14 | 6.6% | 8 | 5.9% |
| **Caerffili** | 14 | 6.6% | 10 | 7.4% |
| **Abertawe** | 14 | 6.6% | 10 | 7.4% |
| **Rhondda Cynon Taf** | 17 | 8.0% | 10 | 7.4% |
| **Caerdydd** | 19 | 8.9% | 13 | 9.6% |

Fesul iaith yr addysgu (fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru)

| | Poblogaeth | | Ymatebion | |
|---|---|---|---|---|
| Dwyieithog (Math C) | 4 | 1.9% | 2 | 1.5% |
| Dwyieithog (Math A) | 5 | 2.3% | 4 | 2.9% |
| Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg | 9 | 4.2% | 8 | 5.9% |
| Dwyieithog (Math B) | 13 | 6.1% | 8 | 5.9% |
| Cyfrwng Cymraeg | 32 | 15.0% | 23 | 16.9% |
| Cyfrwng Saesneg | 150 | 70.4% | 91 | 66.9% |

Fesul band (yn ôl System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru, 2013)

| | Poblogaeth | | Ymatebion | |
|---|---|---|---|---|
| Band 1 | 20 | 9.4% | 13 | 9.6% |
| Band 2 | 61 | 28.6% | 43 | 31.6% |
| Band 3 | 57 | 26.8% | 36 | 26.5% |
| Band 4 | 47 | 22.1% | 27 | 19.9% |
| Band 5 | 20 | 9.4% | 13 | 9.6% |
| amh. | 8 | 3.8% | 4 | 2.9% |

CfBT Education Trust
60 Queens Road
Reading
Berkshire
RG1 4BS

0118 902 1000

www.cfbt.com

ISBN: 978-1-909437-66-1 06/2015